


# ‘Meithrin parch ar y ddwy ochr’ – Hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol mewn ysgolion uwchradd

Mai 2025

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig a gynhelir
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol
- trefniadau trochi yn y Gymraeg mewn awdurdodau lleol
- gwasanaethau gwaith ieuenctid
- addysg gychwynnol athrawon
- Cymraeg i oedolion
- prentisiaethau
- dysgu yn y sector cyfiawnder

**Mae Estyn hefyd:**

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW   neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

## Cynnwys                                                    Tudalen


**Crynodeb gweithredol** ........ **1**

**Cyflwyniad** ........ **3**

**Cefndir** ........ **3**

**Argymhellion** ........ **9**

**Heriau sy’n wynebu ysgolion uwchradd** ........ **10**

- Heriau a nodwyd gan arweinwyr a phob un o’r staff ynghylch ymddygiad ........ 10
- Ffactorau heriol eraill yn gysylltiedig ag ymddygiad ........ 12
- Heriau a nodwyd gan ddisgyblion ynghylch ymddygiad ........ 14
- Heriau mewn ymddygiad a nodwyd gan awdurdodau lleol ........ 17

**Ymagweddau ysgolion at hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol** ........ **18**

- Prosesau hunanwerthuso yn arwain at welliant mewn ymddygiad ........ 19
- Creu perthnasoedd gwaith cadarnhaol a diwylliant o berthyn ........ 22
- Ymgysylltu a chyfathrebu effeithiol â rhieni ........ 24
- Cefnogi disgyblion ag ymddygiad heriol ........ 27
- Dysgu proffesiynol a strategaethau i gefnogi staff a disgyblion ........ 31

**Canlyniadau arolygon** ........ **34**

- Crynodeb o’r prif themâu o ymatebion disgyblion ........ 34
- Crynodeb o’r prif themâu o arolygon penaethiaid ........ 38
- Crynodeb o’r prif themâu o ganlyniadau staff ........ 44
- Canran yn seiliedig ar ymatebion gan 503 o staff ysgolion ........ 52
- Cwestiynau tebyg ar gyfer cymharu ar draws arolygon ........ 52

**Dulliau a sail y dystiolaeth** ........ **59**

**Geirfa** ........ **60**

- Niferoedd – symiau a chyfrannau ........ 61

**Cyfeiriadau** ........ **63**

## Crynodeb gweithredol

Mae’r adroddiad hwn yn archwilio ymagweddau at hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru. Mae’n amlygu’r heriau sy’n wynebu ysgolion uwchradd ac yn cynnwys cipluniau arfer effeithiol. Mae’r adroddiad yn defnyddio gwybodaeth o ymweliadau â 24 o ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed, trafodaethau â swyddogion o 10 awdurdod lleol a chanfyddiadau arolygon cenedlaethol ar gyfer penaethiaid, staff a disgyblion.

Mae ymddygiad cadarnhaol yn sail i addysgu a dysgu effeithiol ac yn cefnogi cynnydd academaidd. Fodd bynnag, yn ystod arolygu, mae arweinwyr a staff ysgolion wedi dweud y bu dirywiad yn ymddygiad ychydig o’u disgyblion ers cyfnod y pandemig. Yn ychwanegol, bu cynnydd cenedlaethol mewn gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol. Fodd bynnag, gan nad oes system genedlaethol i gasglu data ar achosion o ymddygiad gwael mewn ysgolion ar hyn o bryd, mae deall graddau llawn y broblem yn parhau’n anodd.

Mae’r dystiolaeth a gasglom ar gyfer yr adolygiad thematig hwn yn awgrymu bod llawer o resymau pam y gallai disgyblion fod yn dangos ymddygiad heriol. Mae’r rhain yn cynnwys ansefydlogrwydd teuluol, pwysau economaidd-gymdeithasol, problemau iechyd meddwl ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae problemau ymddygiad cyffredin a nodwyd gan ysgolion yn cynnwys tarfu parhaus ar lefel isel, gweithredoedd o herio, ac i raddau llai, gwrthdaro corfforol. Mae ffactorau allanol fel dylanwad y cyfryngau cymdeithasol a materion yn gysylltiedig â chymunedau, fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, wedi arwain at weld mwy o ymddygiadau cymhleth mewn ysgolion. Datgelodd ymatebion i’n harolygon cenedlaethol ymhlith staff a disgyblion [tudalennau 34 i 58] bryderon am darfu ar lefel isel mewn gwersi, ymddygiad gwael mewn coridorau, camddefnyddio ffonau symudol, a gorbryder cynyddol ymhlith disgyblion. Amlygodd arweinwyr hefyd fod anawsterau wrth sicrhau cymorth arbenigol amserol.

Yn gyffredinol, mae dulliau ysgolion sy’n cael anhawster yn rheoli ymddygiad disgyblion yn anghyson neu nid oes ganddynt bolisïau a phrosesau clir. Gallai cyfyngiadau o ran cyllideb a chefnogaeth allanol annigonol fod yn ffactorau allweddol, hefyd. Mae gan yr ysgolion mwyaf llwyddiannus ddisgwyliadau uchel o’u disgyblion a’u staff. Yn yr ysgolion hyn, mae’r arweinyddiaeth lles yn gryf ac yn cael ei chefnogi gan bolisïau ymddygiad effeithiol. Fel arfer, ceir cysondeb mewn arferion rheoli ymddygiad a dysgu proffesiynol rheolaidd ar gyfer athrawon. Gallai ysgolion effeithiol roi dulliau sy’n ystyriol o drawma ar waith hefyd i gefnogi anghenion emosiynol disgyblion, a chynnal arferion adferol rheolaidd. Mae ymgysylltu â rhieni a phartneriaethau cymunedol cryf hefyd yn allweddol i gynnal diwylliant o ymddygiad cadarnhaol. Mae’r rhain yn helpu meithrin ymdeimlad o berthyn ar gyfer disgyblion.

Cynhaliom arolygon o ddisgyblion, staff, a phenaethiaid. Mae canfyddiadau’r arolygon hyn yn dangos gwahanol amgyffrediadau o beth yw ymddygiad gwael a pha gymorth sydd ei angen. Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn disgrifio ymddygiad mewn modd cadarnhaol, mae staff a phenaethiaid yn mynegi pryderon am darfu cynyddol a’r cymorth cyfyngedig sydd ar gael. Mae disgyblion yn pwysleisio’r angen am barch ar y ddwy ochr, gan alw am driniaeth deg ac ymagweddau cyson at ddisgyblaeth. Mae athrawon yn amlygu materion cyffredin fel herio, cam-drin geiriol, a chamymddwyn ar goridorau. Mae penaethiaid yn pwysleisio’r angen am bolisïau cenedlaethol cliriach, cyllid cynyddol, a mwy o ddarpariaethau arbenigol. Yn eu cyfanrwydd, mae ymatebion i’r arolygon yn amlygu pwysigrwydd gorfodi polisi cyson, perthnasoedd cefnogol, a chefnogaeth allanol effeithiol.

Mae’r adroddiad yn argymell y dylai ysgolion gryfhau eu systemau rheoli ymddygiad trwy gynnwys yr holl randdeiliaid, gan gynnwys ysgolion bwydo, rhieni a gofalwyr, llywodraethwyr ac awdurdodau lleol, i ddatblygu polisi a phrosesau clir a chyson. Yn ychwanegol, dylai staff gael hyfforddiant penodol ar reoli ymddygiad aflonyddgar, yn enwedig gan ddysgwyr bregus. Dylai gwasanaethau awdurdodau lleol ddarparu cefnogaeth amserol, rhannu gwybodaeth berthnasol am anghenion a phrofiadau disgyblion yn effeithlon os yw disgyblion yn symud o fewn yr awdurdod lleol, neu’r tu hwnt iddo, a mabwysiadu ymagwedd gyson at ymgysylltu â theuluoedd. Anogir Llywodraeth Cymru i ddiweddaru canllawiau cenedlaethol ar reoli ymddygiad a lansio ymgyrch genedlaethol ar ymddygiad cadarnhaol. Dylai rhaglenni addysg gychwynnol athrawon ac ymsefydlu hefyd gynnwys rhaglenni cynhwysfawr ar reoli ymddygiad.

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg yn ei lythyr cylch gwaith i Estyn ar gyfer 2024-2025. Mae’r adroddiad yn canolbwyntio ar y strategaethau a ddefnyddir i feithrin ymddygiadau cadarnhaol, i gefnogi lles disgyblion a sicrhau cynnydd yn eu dysgu. Mae’r adroddiad yn amlygu’r heriau a’r rhwystrau y mae arweinwyr ysgolion, staff a disgyblion yn eu profi oherwydd rhai ymddygiadau gan ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd, yn enwedig ers y pandemig. Mae hefyd yn cynnwys cipluniau ac astudiaethau achos o arferion effeithiol o ran sefydlu a chynnal ymddygiadau cadarnhaol. Ysgrifennir yr adroddiad hwn ar gyfer ysgolion, awdurdodau lleol, gwasanaethau gwella ysgolion a Llywodraeth Cymru.

I lywio’r adroddiad hwn, ymwelodd arolygwyr â sampl o 24 o ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed ledled Cymru. Roeddent yn amrywio yn ôl maint, lefelau amddifadedd, cyfrwng iaith a lleoliad. Buom yn trafod gydag arweinwyr, staff, staff cymorth a disgyblion, gan gynnwys y rhai oedd ag ymddygiad heriol. Buom yn ymweld â darpariaethau lles ac ymddygiad ysgolion ar y safle ac yn arsylwi ymddygiad yn ystod amser egwyl, amser cinio ac mewn coridorau rhwng gwersi. Buom hefyd yn adolygu’r gwerthusiadau o weithgarwch arolygu yn ystod 2022-2024. Rhoddodd 10 o’r 22 awdurdod lleol yng Nghymru adborth am eu gwaith i gefnogi ysgolion, a buom yn casglu barn penaethiaid, staff addysgu a disgyblion mewn arolwg cenedlaethol ar-lein yn ystod tymor yr hydref 2024.

## Cefndir

Mae ymddygiad cadarnhaol mewn ysgolion yn angenrheidiol i ddisgyblion ddysgu, athrawon addysgu, staff cymorth i helpu dysgwyr, a rhieni i gael hyder fod eu plentyn yn ddiogel ac yn cael cymorth i lwyddo yn yr ysgol. Dros gyfnod, ac yn arbennig ers y pandemig, mae ein grŵp cyfeirio penaethiaid a staff yn ystod arolygiadau ac ymweliadau dilynol wedi dweud bod dirywiad cyffredinol yn ymddygiad disgyblion mewn ysgolion uwchradd, a bod ychydig o ddisgyblion yn dangos ymddygiadau heriol. Yn aml, mae’r ymddygiadau hyn yn amlweddog ac yn gysylltiedig ag iechyd meddwl, emosiynol, lles ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY) disgyblion. Yn ystod ein gweithgarwch arolygu craidd, ymweliadau dilynol, ymweliadau interim ac yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw yn ystod yr adroddiad thematig hwn, mae arweinwyr, staff a disgyblion wedi nodi bod ymddygiad ychydig o ddisgyblion yn yr ysgol yn dod yn gynyddol anodd i’w reoli. Mae heriau ymddygiadol newydd wedi datblygu, hefyd.

Gall ymddygiad heriol ddigwydd mewn sawl ffurf, gan amrywio o darfu ar lefel isel i anhrefn sylweddol. Gall tarfu ar lefel isel gynnwys:

- siarad â chyfoedion yn ystod tasgau neu gyfarwyddyd athrawon
- symud o gwmpas yr ystafell ddosbarth heb gael caniatâd i wneud hynny
- ymddygiad aflonyddgar
- gwirio ffonau symudol
- tynnu wynebau
- gweiddi allan, neu ymddygiad tebyg

Mae tarfu ar lefel uchel yn golygu ymddygiad sy’n anghwrtais ac yn amharchus ac yn aml wedi’i gynllunio i danseilio’r athro a tharfu ar ddysgu disgyblion eraill. Mae ymddygiadau o’r fath yn cynnwys ateb yr athro’n ôl mewn modd amharchus, bod yn gwrthdrawiadol, bygwth yr athro neu ddisgybl yn gorfforol, ac ymladd yn yr ysgol. Ni ellir anwybyddu ymddygiad aflonyddgar ar lefel uchel, a rhaid delio ag ef ar unwaith. Gall tarfu ar lefel isel ac ar lefel uchel ddwysáu yn gyflym os nad ymdrinnir ag ef. Mae gan bob aelod o staff hawl i weithio mewn amgylchedd diogel lle cânt eu cefnogi’n llawn.

Achosion posibl ymddygiad heriol –

Mae ymddygiadau yn aml yn ffurf o gyfathrebu a gallant fod yn symptom o faterion sylfaenol eraill y mae person ifanc yn eu hwynebu.

- Mae **Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (**Estyn, 2020**) –** Iechyd Cyhoeddus Cymru (Bellis et al, 2016) yn diffinio Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod fel profiadau trawmatig neu ingol sy’n digwydd yn ystod plentyndod sy’n niweidio plentyn yn uniongyrchol neu’n effeithio ar yr amgylchedd y mae’n byw ynddo. Mae’r rhain yn cael eu cofio trwy gydol bywyd oedolyn. Mae Profiad Niweidiol yn ystod Plentyndod yn golygu amlygu plentyn i un neu fwy o’r ffactorau hyn:
    - Cam-drin geiriol a/neu feddyliol
    - Cam-drin corfforol
    - Cam-drin rhywiol
    - Rhieni’n gwahanu mewn ffordd elyniaethus
    - Trais domestig
    - Salwch meddwl rhiant
    - Camddefnyddio alcohol
    - Defnyddio cyffuriau
    - Esgeuluso
    - Rhieni yn y carchar

- **Amgylchedd cartref –** Mae plant yn dysgu ymddygiad gartref, ac os yw eu hamgylchedd cartref yn anhrefnus gyda llawer o weiddi a dadleuon a cham-drin domestig, gallai’r plentyn ystyried bod y math hwn o ymddygiad yn normal, felly bydd yn ailadrodd hyn yn yr ysgol.

- **Diffyg gofal sylfaenol neu esgeuluso posibl –** Mae heriau rhieni i ddarparu ar gyfer anghenion sylfaenol a diffyg amgylchedd cartref cariadus yn cael effaith sylweddol ar ymddygiad plant a phobl ifanc.

- **Diffyg arferion –** Mae diffyg arferion a rhwystrau fel amseroedd prydau bwyd neu amseroedd gwely rheolaidd yn gallu cael effaith negyddol ddifrifol ar blant a phobl ifanc; efallai bod y plentyn yn flinedig ac yn methu canolbwyntio trwy gydol y diwrnod ysgol.

- **Ymddygiad wedi’i ddysgu –** Ar aelwyd anhrefnus, efallai bydd plentyn wedi dysgu bod gwrthdaro ac ymosodedd yn ymddygiad normal a bydd yn ymateb yn naturiol i sefyllfaoedd heriol yn y modd hwn. Gallai fod yn anodd rhoi’r gorau i’r ymddygiad hwn wedi’i ddysgu.

- **Newidiadau ar yr aelwyd –** Gallai plentyn sy’n mynd trwy darfu a newidiadau ar yr aelwyd amlygu’r digwyddiadau arwyddocaol hyn trwy ei ymddygiad yn yr ysgol. Mae achosion cyffredin yn cynnwys galar, rhieni neu ofalwyr yn ysgaru neu fod eu perthynas yn chwalu, symud cartref neu ysgol, neu ddod i wlad newydd.

- **Materion ymddygiadol –** Mae ysgolion fel arfer yn gynhwysol ac yn sicrhau bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) neu’r rhai sydd wedi cael diagnosis fel anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) neu awtistiaeth yn cael eu cefnogi. Gallai’r disgyblion hyn ei chael yn anodd mynegi eu hunain, ac felly maent yn dangos ymddygiad heriol. Gallent gael eu heithrio gan y disgyblion eraill hefyd, a allai achosi iddynt deimlo’n ynysig.

- **Diflastod neu ddifaterwch –** mae rhai disgyblion yn camymddwyn ac yn herio staff addysgu oherwydd diflastod. Efallai eu bod yn ddeallus ac yn teimlo nad ydynt yn cael eu hysbrydoli mewn gwersi. Fel arall, efallai eu bod yn cael trafferth deall, felly’n rhoi i fyny gan fod hyn yn haws, gan droi eu hegni at darfu ar y dosbarth er mwyn cael sylw.

- **Iechyd –** gallai fod problemau iechyd sylfaenol, er enghraifft nam ar y clyw neu’r golwg nad ymdriniwyd ag ef, neu gallent fod yn dioddef o boen neu anesmwythder oherwydd problem heb ei darganfod.

Mae ymddygiad gwael yn creu llawer o heriau i ysgolion. Yn aml, mae ysgolion uwchradd yn gweld bod disgyblion yn wynebu heriau ymddygiadol newydd yn ystod

cyfnod y glasoed. Mae’r cyfnod pontio o’r ysgol gynradd i’r ysgol uwchradd a’r newid o un athro dosbarth i nifer fawr o staff addysgu, tua 10-12 yn y rhan fwyaf o achosion, weithiau’n gallu bod yn anodd i ychydig o ddisgyblion, yn enwedig lle mae anghysondebau o ran sut mae athrawon yn dehongli canllawiau ysgolion.

Mae arweinwyr nid yn unig yn delio ag ymddygiadau o ddydd i ddydd, ond efallai y bydd rhaid iddynt hefyd wneud penderfyniadau am wahardd disgyblion, cynllunio symudiadau rheoledig ac ystyried darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (AHY). Nododd yr adroddiad thematig Tegwch profiadau’r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy’n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) (Estyn, 2023) y cyfyngiadau o ran capasiti wrth gynnig darpariaethau arbenigol. Mae’r meysydd hyn yn gymhleth, ac mae angen eu hastudio ymhellach. Nid yw hyn wedi’i gynnwys yn yr adroddiad hwn.

Mae casglu gwybodaeth ddibynadwy a manwl am ymddygiad mewn ysgolion ledled Cymru yn anodd. Ni chaiff data ei goladu’n genedlaethol ynghylch achosion o ymddygiad gwael. Mae data cenedlaethol ar gael ar waharddiadau cyfnod penodol am bum niwrnod neu lai, gwaharddiadau cyfnod penodol am bum niwrnod neu fwy, a gwaharddiadau parhaol. Fodd bynnag, caiff disgwyliadau ynglŷn â beth mae gwaharddiad cyfnod penodol neu barhaol yn ei olygu eu dehongli’n wahanol, sy’n gwneud dadansoddi’n anodd, ac felly, mae oedi sylweddol yn aml cyn rhyddhau data cenedlaethol.

Rhyddhaodd Llywodraeth Cymru ddata cenedlaethol ar gyfer gwaharddiadau yn 2022-2023 yn ddiweddar. Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion: Medi 2022 i Awst 2023 [HTML] | LLYW.CYMRU

- Mae pob math o waharddiad wedi cynyddu ers rhyddhau’r data diweddaraf yn 2021-2022 ac maent i gyd uwchlaw lefelau cyn y pandemig yn 2018-2019.
- Mewn ysgolion uwchradd, mae gwaharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai wedi cynyddu’n sylweddol. Mae hyn o 75.0 o waharddiadau i bob 1,000 o ddisgyblion cyn y pandemig i 131.2 o waharddiadau i bob 1,000 o ddisgyblion yn 2022-2023. **Cofnodwyd 12,774 o achosion yn 2018-2019 a 22,945 yn 2022-2023**.
- Mewn ysgolion uwchradd, mae cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol o fwy na phum niwrnod wedi cynyddu 58% ers 2018-2019 a 21% ers 2021-2022, gyda 564 o achosion yn 2018-2019, 758 yn 2021-2022 a 912 yn 2022-2023.
- Mewn ysgolion uwchradd, mae gwaharddiadau parhaol wedi codi o 1.3 i bob 1,000 o ddisgyblion yn 2018-2019 i 1.8 i bob 1,000 o ddisgyblion yn 2022-2023, gyda 216 o achosion yn 2018-2019 a 313 yn 2022-2023.
- Ysgolion uwchradd oedd â’r cyfraddau uchaf o waharddiadau ym mhob categori. Mae hyn yn newid o’r cyfnod cyn y pandemig lle roedd gan ysgolion arbennig y cyfraddau uchaf o waharddiadau.
- Mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol bron deirgwaith a hanner yn uwch

ar gyfer disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â chyfradd disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2022-2023.
- Roedd cyfraddau gwaharddiadau disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) gryn dipyn yn uwch na chyfraddau gwaharddiadau o gymharu â disgyblion heb ADY.
- Disgyblion o gefndir ethnig Roma oedd â’r gyfradd uchaf o waharddiadau cyfnodol penodol o bum niwrnod neu lai.
- Disgyblion o gefndir ethnig Gwyn oedd â’r gyfradd uchaf o waharddiadau cyfnod penodol dros bum niwrnod.
- Disgyblion â chefndir ethnig cymysg oedd â’r gyfradd uchaf o waharddiadau parhaol.
- Y rheswm mwyaf cyffredin dros waharddiadau oedd ymddygiad aflonyddgar parhaus, wedi’i ddilyn gan gam-drin geiriol / ymddygiad bygythiol yn erbyn oedolyn.

Mae’r cyfraddau gwaharddiadau hyn yn peri pryder sylweddol ac yn rhoi awgrym i ni o nifer gynyddol y disgyblion sy’n dangos ymddygiad eithriadol o heriol a chymhleth. Nid ar chwarae bach y mae ysgol yn penderfynu gwahardd disgybl. Fodd bynnag, mae diogelwch plant eraill a staff yn hollbwysig.

Oherwydd absenoldeb coladu data cenedlaethol ynghylch ymddygiad, nid oes gennym ddarlun cyflawn o’r ymddygiad o ddydd i ddydd y mae disgyblion ac athrawon yn ei brofi mewn ysgolion uwchradd. Nod yr adroddiad hwn yw nodi’r prif heriau sy’n wynebu arweinwyr, staff a disgyblion yn ein hysgolion ac amlygu ffyrdd effeithiol y mae rhai ohonynt wedi eu mabwysiadu, ac y gellir eu harchwilio i feithrin ymddygiadau cadarnhaol i wella lles a deilliannau i bawb. Gallai’r arfer effeithiol a’r cipluniau a amlygwyd alluogi ysgolion i fyfyrio ar eu harfer eu hunain ac ystyried dulliau amgen ar gyfer eu cyd-destun eu hunain.

Ym mis Ebrill 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad i’r ddogfen ganllawiau ar wahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion. Mae’r canllawiau hyn yn amlinellu’r gweithdrefnau ar gyfer gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) yng Nghymru, gan sicrhau bod gwaharddiadau’n deg, yn dryloyw, ac yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol. Mae’n pwysleisio y dylai gwahardd fod yn ddewis olaf, i’w ddefnyddio yn unig i ymateb i achosion difrifol o dorri polisïau ymddygiad ysgolion a phan fydd pob strategaeth arall wedi cael ei disbyddu. Mae’r ddogfen yn darparu dull strwythuredig ar gyfer penaethiaid, cyrff llywodraethol, panelau apelio annibynnol, ac awdurdodau lleol i reoli gwaharddiadau a chefnogi addysg barhaus dysgwyr. At ei gilydd, mae’r canllawiau’n hyrwyddo ymagwedd strwythuredig a theg at wahardd, gan sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen am ddisgyblaeth yn yr ysgol a hawliau dysgwyr i gael addysg. Maent yn pwysleisio

pwysigrwydd cyfathrebu clir, gwneud penderfyniadau teg, a chymorth parhaus i leihau i'r eithaf effaith negyddol gwahardd ar ddeilliannau dysgwyr yn y tymor hir.

Fodd bynnag, nid oes unrhyw ganllawiau perthnasol, ymarferol a chyfredol i gefnogi ysgolion, disgyblion na’u teuluoedd i ddelio ag ymddygiad a hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol. Yn y 15 mlynedd ddiwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio’r canllawiau canlynol:

- Diweddarwyd Gwahardd o’r ysgol: canllawiau i ddisgyblion ddiwethaf ym mis Hydref 2015 ac mae’n ymddangos eu bod wedi dyddio.
- Diweddarwyd Dulliau ymarferol o reoli ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth (llawlyfr i athrawon dosbarth mewn ysgolion uwchradd) ddiwethaf ym mis Awst 2010.
- Mae Canllawiau – Cynnwys a chynorthwyo disgyblion yn darparu canllawiau defnyddiol ar gymorth ymddygiad. Fodd bynnag, diweddarwyd y ddogfen ddiwethaf ym mis Mawrth 2016.

Nid yw’r dogfennau canllawiau hyn yn cynnwys gwybodaeth gyfoes ar gyfer cefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i ddelio â nodweddion amlwg diweddar ymddygiad heriol ychydig o ddisgyblion.

# Argymhellion

**Dylai ysgolion:**

A1 Sicrhau eu bod yn gwerthuso’u hymagwedd at reoli ymddygiad ysgol gyfan yn drylwyr a chynnwys yr holl randdeiliaid yn y broses ar gyfer gwerthuso a chynllunio ar gyfer unrhyw newidiadau

A2 Darparu dysgu proffesiynol rheolaidd a phwrpasol ar gyfer staff i sicrhau eu bod yn datblygu dealltwriaeth gadarn o reoli ymddygiad pob un o’r disgyblion yn effeithiol, yn enwedig disgyblion iau yn yr uwchradd a dysgwyr bregus, a sut i ymateb i’w hanghenion

A3 Cydweithio ag ysgolion eraill i gefnogi pontio a rhannu arfer effeithiol i gefnogi ymddygiad cadarnhaol

A4 Gwerthuso addasrwydd eu cwricwlwm a gwneud addasiadau ystyriol i sicrhau bod pob un o’r disgyblion yn cael cyfle i elwa ar addysgu o ansawdd uchel a phrofiadau dysgu perthnasol a difyr

**Dylai awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion:**

A5 Cryfhau capasiti i ddarparu cymorth mwy amserol ac ymarferol i ysgolion

A6 Mabwysiadu ymagwedd ar draws yr awdurdod at hyrwyddo ymgysylltu cadarnhaol rhwng teuluoedd ac ysgolion

A7 Ystyried sut gellir dyrannu cyllid yn uniongyrchol ac yn fwy effeithiol i gefnogi ysgolion unigol i fynd i’r afael â heriau ymddygiadol

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A8 Gwneud gwaith ymchwil ar draws ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed i nodi tueddiadau mewn ymddygiad a darparu arweiniad cyfoes ar gyfer ysgolion ar y cymorth mwyaf effeithiol i helpu gwella ymddygiad

A9 Datblygu ymgyrch genedlaethol mewn partneriaeth ag ysgolion i hyrwyddo ac esbonio pwysigrwydd ymddygiad da gyda rhieni / gofalwyr a disgyblion

A10 Sicrhau bod rhaglenni addysg gychwynnol athrawon a rhaglenni ymsefydlu yn cynnwys sylfaen fwy trylwyr mewn dulliau rheoli ymddygiad ac yn cynnig rhaglen gymorth strwythuredig i athrawon newydd gymhwyso i sicrhau eu bod yn gallu rheoli ymddygiad yn effeithiol yn yr ystafell ddosbarth

# Heriau sy’n wynebu ysgolion uwchradd


## Heriau a nodwyd gan arweinwyr a phob un o’r staff ynghylch ymddygiad

Nododd bron pob un o’r ysgolion y buom yn ymgysylltu â nhw fod llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, ac ychydig o ddisgyblion yn unig oedd yn dangos ymddygiad hynod heriol. Fodd bynnag, roedd yr heriau sy’n wynebu ysgolion wrth ddelio’n effeithiol ag ymddygiad yn gymhleth ac yn cynnwys sawl ffactor cyfrannol. Roedd y rhain yn cynnwys cyfyngiadau o ran cyllidebau, recriwtio a chadw staff arbenigol, a diffyg cymorth a oedd ar gael yn rhwydd gan asiantaethau allanol ac awdurdodau lleol. Mae newidiadau cenedlaethol diweddar ac arwyddocaol, er enghraifft Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, gweithredu a datblygu Cwricwlwm i Gymru ac ansicrwydd ynglŷn â chymwysterau newydd ‘Gwneud-i-Gymru’ a diffyg cefnogaeth gan rieni, yn creu heriau sylweddol i ysgolion. Nodwyd hefyd yn ystod yr ymweliadau fod nifer y disgyblion unigol yn yr ysgol sy’n dangos ymddygiadau heriol wedi cynyddu. Mewn ychydig o achosion, roedd ymddygiadau’n dod yn fwy cymhleth ac yn golygu bod angen hyfforddiant a chymorth ychwanegol ar gyfer staff.

### Tueddiadau yn ymddygiadau disgyblion

Yn gyffredinol, mewn gwersi, nododd staff ysgolion mai’r prif themâu mewn ymddygiad gwael yw ateb yr athro’n ôl neu amharchu staff, gwrthod cwblhau gwaith a thriwantiaeth fewnol. Mewn ychydig iawn o achosion, nodwyd cam-drin geiriol tuag at ddisgyblion a staff. Yn yr arolwg cenedlaethol, datgelodd ymatebion staff fod pryderon sylweddol ynghylch ystod o heriau. Roedd materion allweddol yn cynnwys tarfu ar lefel isel, herfeiddio a thriwantiaeth. Y prif ymddygiadau gwael a welwyd y tu allan i wersi, yn ystod amseroedd heb eu goruchwylio, oedd fepio, defnyddio ffonau symudol yn groes i bolisi’r ysgol a difrodi eiddo ysgol, yn enwedig toiledau.

**Ar sail eich profiad yn eich ystafelloedd dosbarth eleni, allwch chi nodi’r ymddygiadau sydd wedi achosi’r problemau mwyaf yn eich gwersi? Dewiswch bob un sy’n berthnasol:**




*Canran yn seiliedig ar ymatebion gan 1,680 o ddisgyblion*

Mynegodd llawer o aelodau staff rwystredigaeth â threfn anghyson o ran gorfodi polisïau ymddygiad ar draws yr ysgol a chefnogaeth allanol gyfyngedig:

> “Mae rhai disgyblion yn osgoi cael eu cosbi am ormod o ymddygiad gwael, a disgyblion eraill yn cael eu cosbi am yr un tramgwyddau.” Athro, arolwg cenedlaethol
>
> “Mae’n ymddangos bod gan ddisgyblion lai o ymwybyddiaeth o ffiniau ers y pandemig. Maen nhw’n ymddangos yn fwy amharod i ymgysylltu â dysgu, ac mae dirywiad mewn gwydnwch.” Staff, arolwg cenedlaethol

Nododd y rhan fwyaf o ysgolion yr ymwelom â nhw fod ychydig o ddisgyblion, yn enwedig disgyblion bregus a disgyblion ag ADY, yn cael trafferth â hunanreoleiddio. Mae arferion llym a hyd y diwrnod ysgol yn anodd, yn eu barn nhw, a gall hyn arwain at ymddygiad aflonyddgar. Datgelodd yr arolwg cenedlaethol fod staff yn teimlo bod diffyg cymorth targedig ar gyfer disgyblion ag ADY, gan gynnwys y rhai ag ADHD ac anawsterau emosiynol, gan arwain at heriau mewn gwersi.

Ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, nododd arweinwyr a staff fod ymddygiad ychydig o ddisgyblion iau yn fwy heriol nag a welwyd yn y gorffennol. Dywedont fod

disgyblion yn cael trafferthion ag arferion a disgwyliadau’r ysgol. Mewn gwersi, nid oedd ganddynt wydnwch i gwblhau tasgau, roeddent yn cael trafferth canolbwyntio a gweithio’n annibynnol. Mewn ychydig o ysgolion, nododd arweinwyr a staff fod merched hŷn yn dangos ymddygiad mwy heriol nag a welwyd yn y gorffennol, pyliau o gamymddwyn o ganlyniad i grwpiau ffrindiau yn chwalu, cweryla yn sgil gweithgarwch ar gyfryngau cymdeithasol, hunan-barch isel a chyflyrau heb ddiagnosis.

Nododd bron pob un o’r ysgolion yr ymwelom â nhw fod cynnydd yn nifer y disgyblion sy’n dangos lefelau uchel o orbryder. Dangosodd y disgyblion hyn ymddygiadau a oedd yn golygu bod angen cymorth a darpariaeth ychwanegol arnynt. Maent yn cynnwys osgoi’r ysgol ar sail emosiwn [EBSA], analluu i fynd i mewn i ystafelloedd dosbarth lle mae nifer fawr o ddisgyblion, gwrthod sefyll arholiadau allanol mewn lleoliadau mwy ac anhawster meithrin / cynnal perthnasoedd â staff a disgyblion.

Yn ystod ein hymweliadau ac yn yr arolwg cenedlaethol, mynegwyd pryderon gan staff addysgu fod rheoli ymddygiad yn cymryd cryn dipyn o amser addysgu, sy’n aml yn effeithio ar ansawdd y dysgu ar gyfer pob un o’r disgyblion. Nododd bron pob un o’r ysgolion yr ymwelom â nhw fod ychydig iawn o ddisgyblion yn dangos ymddygiadau a oedd yn anystywallt mewn lleoliad ysgol uwchradd ac roedd angen darpariaeth arbenigol ar gyfer hyn. Mae manteisio ar ddarpariaeth arbenigol sy’n gallu cefnogi anghenion gwaelodol disgyblion o ran ymddygiad heriol yn anodd gan fod darpariaethau yn aml yn llawn.

### Ffactorau heriol eraill yn gysylltiedig ag ymddygiad

Yn sgil ein hymweliadau ag ysgolion, nododd arweinwyr a staff themâu cyffredin.

Nododd staff ysgolion fod diffyg cefnogaeth rhieni yn peri pryder. Nododd bron pob ysgol fod graddau o anhawster ymgysylltu ag ychydig o rieni ynghylch materion ymddygiadol. Roedd y rhieni hyn yn aml yn herio disgwyliadau’r ysgolion ynghylch ymddygiad ac yn nodi eu bod wedi cael trafferth rheoli ymddygiad eu plant gartref. Yn yr arolwg cenedlaethol, yn ôl disgrifiad llawer o staff, roedd ychydig o rieni yn anghefnogol, gan weithiau danseilio staff trwy esgusodi ymddygiad gwael. Roedd ychydig iawn o rieni’n dangos ymddygiad ymosodol tuag at arweinwyr a staff pan fynegwyd pryderon wrthynt am ymddygiad eu plentyn.

> “Dydy cefnogaeth gan rieni ddim fel yr oedd; dydy rhieni ddim yn mynd i’r afael ag ymddygiad gwael yn y cartref, ac mae’n rhaid i ni wneud hynny yn yr ysgol.” Arweinydd, arolwg cenedlaethol
>
> "Mae amharodrwydd rhieni i fynd i’r afael ag ymddygiad heriol yn cefnogi agweddau herfeiddiol." Arweinydd, arolwg cenedlaethol

Mewn lleiafrif o ysgolion, nododd arweinwyr fod trosglwyddiadau disgyblion o ysgolion eraill yng nghanol blwyddyn yn heriol. Yn rhy aml, nid ydynt yn cael digon o wybodaeth am y disgyblion hyn, yn enwedig y rhai sy’n dangos ymddygiad heriol. Mae swm y trosglwyddiadau yng nghanol blwyddyn yn heriol i ysgolion, a byddai hyn yn cyfiawnhau astudio pellach.

Teimlai’r rhan fwyaf o arweinwyr ysgolion fod y gefnogaeth gyffredinol gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion wrth ddelio ag ymddygiad heriol yn annigonol. Roedd ysgolion yn aml yn cynnig eu darpariaethau eu hunain ar gyfer cymorth ymddygiadol, ond yn rhy aml, yn gwneud hyn gyda chyllideb gyfyngedig. Roedd dod o hyd i staff sydd wedi cael hyfforddiant addas yn heriol, ac roedd yn anodd eu cadw i sicrhau dull cyson dros gyfnod. Yn ychwanegol, roedd creu amgylchedd pwrpasol yn heriol o ganlyniad i ddiffyg lle o fewn safle’r ysgol. Dywedodd ysgolion fod yr opsiynau sydd ar gael iddynt ar ôl dilyn yr holl gamau yn eu strategaeth ymddygiad yn gyfyngedig wrth fynd i’r afael ag ymddygiad heriol ychydig o ddisgyblion.

> “Mae’r systemau sydd ar waith sy’n cynnwys asiantaethau allanol yn rhy araf, ac mae darpariaeth anogaeth yn gyfyngedig.” Arweinydd, arolwg cenedlaethol
>
> “Mae angen gwneud mwy ar lefel Cymru gyfan, yn enwedig ynghylch defnyddio ffonau a chyfryngau cymdeithasol.”  Pennaeth, arolwg cenedlaethol
>
> “Mae’r diffyg darpariaeth ar gyfer myfyrwyr tariff uchel yn golygu nad yw myfyrwyr eraill yn cael eu cefnogi’n llawn.” Pennaeth, arolwg cenedlaethol

Dywedodd ysgolion fod y broses atgyfeirio ar gyfer derbyn gwasanaethau cymorth ymddygiad awdurdodau lleol yn cynnwys gormod o waith papur ac yn cymryd yn rhy hir. Roedd rhaid i ddisgyblion sy’n dangos ymddygiadau heriol aros yn yr ysgol tra’n aros am gymorth, ac roedd hyn yn rhoi straen ar adnoddau, yn enwedig staffio. Mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn gwaharddiadau.

> "Mae’r gefnogaeth yn araf ac wedi’i chloddio o dan waith papur maith." Pennaeth, arolwg cenedlaethol

Teimlai ysgolion fod diffyg darpariaethau amgen addas gan awdurdodau lleol ar gael i ddisgyblion ag ymddygiad heriol. Yn rhy aml, roedd darpariaeth UCD eisoes yn llawn ar ddechrau’r flwyddyn academaidd, ac ni allai gynorthwyo ysgolion i ddarparu lleoliadau tymor byr i gefnogi ymddygiad disgyblion.

> “Mae un arbenigwr ymddygiad ar hyn o bryd, sy’n cael ei rannu ymhlith yr holl ysgolion." Pennaeth, arolwg cenedlaethol
>
> "Mae 95% o ddysgwyr yn ymddwyn yn dda bob amser. Mae gan y 5% arall

> anghenion y tu hwnt i’r hyn y gall lleoliad ysgol ei ddarparu." Pennaeth, arolwg cenedlaethol
>
> “Mae dim UCDau a diffyg capasiti yn golygu bod rhaid i ysgolion reoli ymddygiadau eithafol ar eu pen eu hunain." Pennaeth, arolwg cenedlaethol

Yn gysylltiedig â hyn, mae rhestrau aros hir asiantaethau cymorth allanol ar gyfer pobl ifanc, fel Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), ac yn rhy aml, roedd rhaid i ysgolion ddarparu eu cymorth eu hunain gyda gwybodaeth neu hyfforddiant arbenigol cyfyngedig. Roedd hyn yn arbennig o wir am ddisgyblion sy’n dangos lefelau uchel o orbryder.

Roedd dysgu proffesiynol ar anghenion penodol yn aml yn arwynebol neu’n ddigwyddiad rhagarweiniol untro. Nododd ysgolion fod diffyg hyfforddiant cynhwysfawr neu arbenigol ar gael i staff y gellid ei ymgorffori’n effeithiol dros gyfnod. Byddai mwy o hyfforddiant mewn rheoli ymddygiadau heriol a chefnogi disgyblion ag anghenion iechyd meddwl yn cael ei groesawu gan bob un o’r staff.

Nododd canfyddiadau o’n hymweliadau a’r arolwg staff fod materion ymddygiad parhaus ychydig o ddisgyblion yn aml yn cael effaith negyddol ar forâl a lles staff. Nododd staff yn yr arolwg cenedlaethol, er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, fod ymddygiad aflonyddgar ychydig o ddisgyblion yn cael effaith sylweddol ar amgylchedd cyffredinol yr ysgol. I fynd i’r afael â’r heriau hyn, bydd angen gweithredu cydlynus ymhlith ysgolion, rhieni, gwasanaethau cymorth arbenigol a llunwyr polisi.

> “Disgyblion yn crwydro yn y coridorau yn effeithio ar wersi sy’n cael eu cynnal.” Staff, arolwg cenedlaethol
>
> “Siarad ar draws yr ystafell ddosbarth a tharfu ar ffrindiau yw’r broblem fwyaf ym mwyafrif y gwersi arferol.” Staff, arolwg cenedlaethol

At ei gilydd, nododd penaethiaid yn yr arolwg cenedlaethol fod llai o gyllid, toriadau staff a gwasanaethau cymorth arbenigol annigonol yn rhwystro cynnydd o ran mynd i’r afael ag ymddygiadau heriol. Roedd y diffyg lleoedd mewn darpariaethau arbenigol fel UCDau yn destun cryn bryder, a llawer o benaethiaid yn pwysleisio’r angen dybryd am wasanaethau allanol wedi’u hariannu’n well a pholisïau cenedlaethol cliriach. Nododd penaethiaid hefyd fod angen cyllid cynyddol ar gyfer darpariaethau arbenigol, gwaith partneriaeth effeithiol gyda rhieni a gofalwyr, a chydweithio ar draws gwasanaethau addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

### Heriau a nodwyd gan ddisgyblion ynghylch ymddygiad

Yn ystod ein hymweliadau ac yn yr arolwg cenedlaethol, darparodd llais y disgybl nifer o

sylwadau ynglŷn â’u barn ar yr heriau a’r cymorth gorau wrth ddelio ag ymddygiadau.

> “Ar ôl y cyfnodau clo – roedd mynd yn ôl i’r ysgol yn anodd. Roeddwn i’n teimlo bod rhaid i mi ddod o hyd i’m lle eto gyda ffrindiau. Roeddwn i’n ymddwyn yn wael am fy mod i’n ceisio ‘ffitio i mewn’.”
>
> “Mae gan staff amser i gyfathrebu â ni. Mae’n ddosbarth bach – mae’n dawelach.” Disgybl Blwyddyn 9, ymweliad
>
> “Pe na bai’r ardal les yn yr ysgol, fydden i ddim yn dod i’r ysgol. Dylai fod gan bob ysgol ardal les gyda staff i helpu disgyblion.”
>
> “Gallai ychydig o athrawon fod yn fwy amyneddgar gyda disgyblion â disgyblion sydd yn gweld hi’n anodd.” Disgybl, arolwg cenedlaethol
>
> “Dwi ddim yn hoffi bod yn ddrwg, doeddwn i ddim eisiau bod yn ddrwg…. roedd yn ynysig iawn. Roedd yn anodd i mi ailaddasu i’r ysgol ar ôl y cyfnod clo.” Disgybl Blwyddyn 12, ymweliad
>
> “Maen nhw’n siarad â mi…maen nhw’n gwrando arna’ i…rydw i’n hoffi’r sgwrs.” Disgybl Blwyddyn 10 am yr hyb lles, ymweliad
>
> “Byddai’n well gen i fod yn ddrwg nag yn dwp.” Disgybl Blwyddyn 9, ymweliad
>
> “Mae’n siŵr na fydd ymddygiad yn gwella rhyw lawer oni bai fod yr athrawon yn ein parchu ni.” Disgybl, arolwg cenedlaethol

Roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn glir am ddisgwyliadau eu hysgol ynghylch ymddygiad, ac yn cydnabod bod angen canlyniadau am ymddygiad annerbyniol, a gwobrau am ymddygiad da. Fodd bynnag, teimlai disgyblion fod tuedd i athrawon wobrwyo disgyblion sy’n aml yn camymddwyn os oedd eu hymddygiad ychydig yn well. Roedd disgyblion a oedd yn ymddwyn yn gyson dda yn teimlo bod hyn yn aml yn cael ei anwybyddu ac nid ei wobrwyo. Yn yr un modd, mewn ychydig o achosion, dywedodd disgyblion fod athrawon yn defnyddio’r system ymddygiad i gofnodi ymddygiadau negyddol yn unig, ac anaml yr oeddent yn nodi ymddygiadau cadarnhaol. Yn ychwanegol, roedd dirywiad o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 11 o ran sut roedd athrawon ac ysgolion yn dathlu ymddygiad cadarnhaol. Teimlai llawer o ddisgyblion hŷn nad oeddent yn cael digon o gydnabyddiaeth am eu hymddygiadau cadarnhaol. Teimlai ychydig iawn o ddisgyblion eu bod yn cael eu ‘labelu’ gan ychydig o staff yn ddrwg ar sail digwyddiadau blaenorol neu hanes teuluol. Roeddent yn teimlo, er gwaethaf cynigion i wella’u hymddygiad, eu bod yn cael eu hanwybyddu pan roedd staff yn dathlu ymddygiad cadarnhaol.

Yn gyffredinol, teimlai disgyblion fod gormod o anghysondebau mewn rheoli ymddygiad gan athrawon. Roedd hyn yn arbennig o wir pan roedd athrawon cyflenwi mewn gwersi lle teimlai disgyblion fod ymddygiad gryn dipyn yn waeth, ac mewn ychydig o achosion, yn arwain at ddirywiad mewn ymddygiad yn y gwersi a oedd yn dilyn ar y diwrnod hwnnw.

At ei gilydd, teimlai disgyblion a oedd yn dangos ymddygiad heriol nad oedd yr athro’n eu hadnabod yn dda iawn ac nid oeddent bob amser yn deall eu materion personol. Mewn ychydig o achosion, teimlai’r disgyblion hyn fod gan yr athro ddisgwyliadau isel o’r hyn y gallent ei gyflawni, ac arweiniodd hyn at gael teimladau o hunan-werth isel. Roedd disgyblion yn cydnabod bod materion cartref yn ei gwneud yn anodd canolbwyntio ar yr ysgol o dro i dro, ac roeddent yn ‘cael eu dal yn yr eiliad honno’, a hyn yn arwain at ymddygiad gwael. Nododd ychydig o ddisgyblion fod eu hymddygiad yn wael yn yr ysgol oherwydd anawsterau gartref. Roeddent yn poeni neu'n teimlo’n rhwystredig o bryd i’w gilydd ac roedd yn heriol iddynt ganolbwyntio yn yr ysgol. Roeddent yn aml yn teimlo’n ynysig ac yn gwerthfawrogi cael ‘amser allan’ o dro i dro, a ‘chael sgwrs’ ag oedolyn yn ystod y diwrnod ysgol.

Nododd lleiafrif o ddisgyblion fod coridorau’n ardaloedd lle mae disgyblion ‘yn gallu bod yn orfywiog’. Dywedodd disgyblion iau fod gwthio a lefelau sŵn uchel yn gwneud iddynt deimlo’n nerfus wrth symud o un wers i’r llall. Nododd ychydig iawn o ddisgyblion fod yn well ganddynt fod yn hwyr i’r wers na cherdded trwy’r coridorau lle mae llawer o ddisgyblion.

Nododd ychydig o ddisgyblion hŷn fod ailaddasu i fywyd ysgol ar ôl y pandemig wedi bod yn heriol, yn enwedig sefydlu perthnasoedd â’u cyfoedion a staff. Nodont hefyd ymddygiadau sy’n wahanol i’r rhai cyn y pandemig. Roedd yr enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys ‘gwylltio’ neu golli rheolaeth o’u hemosiynau yn hytrach na chyfaddef eu bod yn cael trafferth â’r gwaith, dangos eu hunain o flaen cyfoedion er mwyn bod yn boblogaidd a bod yn herfeiddiol tuag at oedolion gan eu bod wedi arfer cael eu ffordd eu hunain a’u harferion eu hunain am amser hir.

Nododd ychydig o ddisgyblion iau fod y cyfnod pontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 wedi bod yn heriol. Roeddent yn gwerthfawrogi’r broses ymsefydlu ond yn teimlo bod symud i ysgol uwchradd wedi bod yn newid sylweddol iddynt. Roeddent yn teimlo bod delio ag amrywiaeth o staff newydd yn heriol, yn enwedig pan roedd eu disgwyliadau a’u ffordd o reoli ymddygiad yn wahanol.

Teimlai lleiafrif o ddisgyblion fod amgylchedd yr ysgol yn dylanwadu ar ymddygiad disgyblion. Roedd ffactorau negyddol yn cynnwys diffyg mannau tawel a phleserus i eistedd gyda ffrindiau yn ystod amseroedd egwyl a dim ‘ardaloedd chwarae’ priodol lle gallent chwarae gyda chyfoedion. Arweiniodd y rhain at ymddygiad gwael, yn enwedig

ar ôl cinio ac ar ddyddiau glawog. Dywedodd ychydig o ddisgyblion fod diffyg gweithgareddau allgyrsiol yn ystod amser cinio yn arwain at ddiflastod ac yn aml yn arwain at ymddygiad gwirion. Nododd ychydig iawn o ddisgyblion fod amseroedd cinio yn rhy fyr. Roedd hyn yn arwain at ddiffyg amser i ‘roi’r gorau i ganolbwyntio’ ac ymlacio. O ganlyniad, roedd ymddygiad ar ôl cinio yn waeth.

Yn gyffredinol, nodwyd bod ymddygiad ychydig o ddisgyblion yn achosi tarfu mewn gwersi. Mewn ychydig iawn o achosion, roedd hyn yn atal disgyblion eraill rhag dysgu.

### Heriau mewn ymddygiad a nodwyd gan awdurdodau lleol

Dywedodd llawer o awdurdodau lleol fod heriau’n parhau, er eu bod wedi defnyddio gwahanol ddulliau o gefnogi ymddygiad mewn ysgolion. Roedd y rhain yn cynnwys cynnydd yn nifer y gwaharddiadau a mwy o alw gan ysgolion am gymorth ar gyfer disgyblion a staff.

At ei gilydd, ond nid yn unig, yr heriau a nodwyd gan awdurdodau lleol oedd ymgysylltiad gwael teuluoedd ag ysgolion, cam-drin geiriol tuag at staff ysgol a oedd yn cynnwys ymddygiad bygythiol, defnyddio ffonau symudol yn yr ysgol, a phroblemau yn deillio o’r cyfryngau cymdeithasol, fepio ar safle’r ysgol – yn enwedig yn nhoiledau’r ysgol, triwantiaeth fewnol, gorbryder uchel a chynnydd mewn atgyfeiriadau ADY, yn enwedig ynghylch niwroamrywiaeth.

Nododd staff awdurdodau lleol y bu her sylweddol ynglŷn â’r cynnydd mewn baich gwaith a diffyg capasiti o ran swyddogion sydd ar gael i ddelio â heriau ymddygiadol sy’n dod i’r amlwg. Mae timau penodol, fel cymorth ymddygiad neu ADY o fewn yr awdurdod lleol, yn aml yn gweithio ar wahân a gall hyn arwain at oedi o ran mynd i’r afael â materion neu ddyblygu mewn rhai achosion. Mae cymorth gan wasanaethau eraill, er enghraifft iechyd, yn aml yn cael ei ohirio oherwydd y cynnydd yn y baich gwaith. Gallai hyn arwain at rwystredigaeth ar ran yr ysgol a’r rhieni.

Cydnabu awdurdodau lleol ei bod yn anodd olrhain ymddygiad yn gywir mewn ysgolion a bod diffyg cysondeb yn natur a fformat y data a gânt yn gwneud hyn yn fwy heriol, hyd yn oed.

# Ymagweddau ysgolion at hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol

Yn ystod ein hymweliadau, gwelsom nifer o ymagweddau at hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Yn yr adran hon, rydym yn adrodd ar yr hyn a welsom yn yr ysgolion mwyaf effeithiol.

- Roedd gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer lles disgyblion ac roeddent wedi sefydlu disgwyliadau uchel ynghylch ymddygiad, a oedd wedi cael eu cyd-greu, eu rhannu ac yn cael eu deall yn dda gan staff, disgyblion a rhieni. Trwy **hunanwerthuso** trylwyr, roedd gwerthoedd ac ethos yr ysgol yn syml a chlir. Roedd pob aelod o gymuned yr ysgol yn modelu ymddygiad da ac roedd parch ar y ddwy ochr ar bob lefel.

- **Roedd perthnasoedd gwaith cadarnhaol yn arwain at ymdeimlad o berthyn yn yr ysgol.** Roedd ymagweddau at reoli ymddygiad yn glir ac yn cael eu defnyddio’n gyson gan bob aelod o staff, gan gynnwys uwch arweinwyr. Roedd cymorth gan arweinwyr i gefnogi a gweithredu’r cosbau mwy difrifol am ymddygiad gwael eithafol.

- Roedd **cyfathrebu â rhieni** yn glir a rheolaidd. Roedd arweinwyr yn rhoi pwyslais mawr ar ymgysylltu â rhieni, ac roedd hyn yn rhoi ymglymiad clir i rieni, yn darparu neges gyson ac yn sicrhau eu bod yn deall polisïau a disgwyliadau’r ysgol.

- Pan roedd angen, roedd **darpariaethau penodol ar gyfer cynorthwyo disgyblion** yn effeithiol. Roedd ysgolion yn sensitif i anghenion unigolion ac yn dangos empathi am ddisgyblion bregus a’r rhai ag ADY. Mewn achosion o’r fath, roedd staff yn eu rheoli’n ofalus trwy ddull addasedig, addysgu eglur, ac ymagweddau effeithiol o ran cymorth ar gyfer ymddygiad.

- **Roedd cyfnod pontio disgyblion o’r sector cynradd i’r sector uwchradd, neu o un ysgol i un arall, yn cael ei reoli’n dda.** Roedd gwybodaeth am ddisgyblion, gan gynnwys eu materion ymddygiad, yn cael ei throsglwyddo’n glir. Roedd yr ymagweddau mwyaf effeithiol o ran rheoli ymddygiad disgyblion unigol bob amser yn cael eu rhannu, a phob un o’r staff yn cael eu hysbysu’n dda. Os oedd angen, roedd cynlluniau penodol yn cael eu rhoi ar waith i leihau i’r eithaf y risg y bydd disgyblion yn dangos ymddygiad heriol ar ôl y cyfnod pontio. Roedd strategaethau fel cynlluniau cymorth unigol neu ddiwrnodau pontio ychwanegol yn llwyddiannus.

- Roedd **cynllunio ystyriol o ran y cwricwlwm** – roedd Cwricwlwm i Gymru yn

sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau heriol a diddorol ar draws pob maes dysgu. I ddysgwyr hŷn, roedd cynnig cwricwlwm eang a chytbwys a oedd yn sicrhau llwybrau addas ar gyfer pob dysgwr. Roedd ystyriaeth ofalus mewn unedau gwaith opsiynol a thestunau gosod mewn rhai pynciau gyda ffocws ar ymgysylltu â dysgwyr yn llawn.

- Roedd **addysgu effeithiol** yn golygu bod staff yn cydnabod anghenion unigol disgyblion yn dda ac yn cynllunio’n briodol i sicrhau bod pob disgybl yn gallu dilyn y cwricwlwm a gwneud cynnydd yn ei ddysgu.
- Roedd **polisi clir** ac a ddeellir yn dda **ar ddefnyddio ffonau symudol** a oedd naill ai’n gwahardd defnydd o ddyfeisiau yn yr ysgol yn gyfan gwbl neu’n cyfyngu ar eu defnyddio i amseroedd wedi’u diffinio’n glir. Roedd hyn yn golygu bod disgyblion a rhieni’n glir am ddisgwyliadau a bod gan bob un o’r staff ymagwedd gyson.
- Roedd **cyfleoedd dysgu proffesiynol** rheolaidd ar agweddau ar reoli ymddygiad ar gyfer pob un o’r staff ac roedd y rhain yn rhan arferol o gynnig dysgu proffesiynol yr ysgolion. Roedd staff yn trafod heriau o ran ymddygiad yn rheolaidd, ac roedd hyn yn cael ei ystyried yn ffordd gyfrifol o chwilio am atebion yn hytrach na methiant unigolyn. Roedd staff yn cael eu hannog i arsylwi ei gilydd, treialu dulliau newydd a gwerthuso’u dulliau ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth yn rheolaidd.
- Roedd darpariaethau i gefnogi ymddygiad a lles yn cael eu cynllunio a’u rheoli’n ofalus. Roedd **staff** dynodedig **wedi cael eu hyfforddi’n dda** o ran mynd i’r afael ag anghenion disgyblion. Roedd rhaglenni ymyrraeth effeithiol yn cael eu cyflwyno a’u gwerthuso’n rheolaidd.

### Prosesau hunanwerthuso yn arwain at welliant mewn ymddygiad

Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, roedd arweinwyr, staff a disgyblion yn gwerthuso effeithiolrwydd eu polisïau lles ac ymddygiad yn rheolaidd ac yn gwneud yr addasiadau angenrheidiol. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ar ôl y pandemig lle roedd angen gwerthfawrogi heriau ymddygiadol newydd a gwahanol ymagweddau. Roedd yr ymagwedd hon yn cynnwys pob un o’r staff a disgyblion yn aml mewn nodi heriau ymddygiadol penodol ac mewn creu a chyfleu eu disgwyliadau ynghylch ymddygiad. Roedd pob un o’r staff a’r disgyblion yn glir am eu cyfrifoldebau. Fodd bynnag, roedd ymglymiad rhieni mewn adolygu a gweithredu polisïau ymddygiad yn brin.

Mae ychydig o ysgolion wedi cynnal gwerthusiad gonest a manwl o’r heriau ymddygiad sy’n eu hwynebu gan ddefnyddio gwybodaeth fel data ymddygiad dros gyfnod. Maent wedi defnyddio ymagwedd drefnus, wedi’i hystyried yn ofalus at fynd i’r afael â’r materion allweddol ynghylch ymddygiad. O ganlyniad, roedd ganddynt ddealltwriaeth glir o’r heriau y mae eu hysgol yn eu hwynebu a’r newidiadau sydd eu hangen.

### Ymagwedd hunan-werthuso

Mae 1,061 o ddisgyblion ar gofrestr **Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd**, a 67.5% o’r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae cyfanswm o 90% o ddisgyblion yn byw mewn ardaloedd sydd o fewn y 10% uchaf yng Nghymru ar gyfer lefelau amddifadedd. Yn rhan o daith wella’r ysgol, defnyddiodd y tîm arweinyddiaeth ymagwedd drefnus, wedi’i hystyried yn ofalus at fynd i’r afael â materion ymddygiadol, gan weithio gyda’r gymuned staff gyfan i ddatblygu camau gweithredu addas. Fe wnaethant dargedu pedwar maes - ymladd a gwrthdaro rhwng disgyblion, herfeiddio (methu dilyn cyfarwyddiadau), prydlondeb a thriwantiaeth fewnol yn yr ysgol a gwersi unigol ac ymddygiadau gwrth-gymdeithasol (er enghraifft rhegi, ymddygiad gwael ar y coridorau ac agweddau amharchus).

**Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd**

Mae llawer o ysgolion wedi gwella’r ffordd y maent yn cyfleu eu disgwyliadau i athrawon a disgyblion, fel ei gilydd. Maent wedi canolbwyntio ar iaith syml, gan ddangos disgwyliadau mewn ystafelloedd dosbarth a choridorau, a chyfeirio’n rheolaidd at ddisgwyliadau. Mewn ychydig o ysgolion, mae hyn wedi cael ei rannu a’i esbonio’n dda i rieni.

### Polisi ymddygiad ‘Parod Parchus Diogel’

Yn **Ysgol Pontarddulais**, cyflwynodd arweinwyr bolisi ymddygiad yn 2019 ar ôl ymgynghori â darparwr allanol. Darparodd arweinwyr sesiynau dysgu proffesiynol buddiol ar gyfer staff i ddatblygu eu medrau mewn rheoli disgyblion, gan gynnwys dulliau sy’n ystyriol o drawma a hyfforddiant empathi. Mae’r polisi ymddygiad newydd wedi’i seilio ar dair rheol syml ‘Parod Parchus Diogel’ ac yn eirioli’r defnydd o ddull cyffredin y ‘5C’ i ddelio ag achosion o ymddygiad gwael, sef: Tawel (Calm), Clir (Clear), Hyderus (Confident), Cyson (Consistent) a Thosturiol (Compassionate). Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau clir ac uchel o staff i aros yn bwyllog a sicrhau tegwch wrth leddfu sefyllfaoedd. Dywedodd disgyblion y buom yn siarad â nhw eu bod yn gwerthfawrogi’r ffordd gyson a phwyllog y mae staff yn delio ag ymddygiad gwael, a dywedodd rhai ohonynt eu bod yn gwerthfawrogi’r cyfle a roddwyd iddynt reoli eu hymddygiad trwy’r dull hwn.

Trwy hunanwerthuso gonest, daeth gweledigaeth glir i’r amlwg, a rhannwyd y gwerthoedd yn glir â staff a disgyblion. Roedd hyn yn bwysig gan fod y polisi yn cael ei weithredu’n gyson.

Mae ychydig o ysgolion yr ymwelom â nhw wedi canolbwyntio’n dda ar sefydlu arferion clir ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol ac yn cefnogi disgyblion i ymddwyn yn dda mewn coridorau rhwng gwersi. Mae staff a disgyblion yn gwerthfawrogi’r cysondeb hwn gan ei fod wedi llwyddo i wella ymddygiad mewn mannau agored ac wedi helpu creu amgylchedd tawel a threfnus, yn enwedig ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Yn **Ysgol Cwm Brombil**, mae disgyblion ym Mlynyddoedd 7-10 yn ffurfio rhesi pan maent yn cyrraedd yr ysgol ac wedyn yn mynd i mewn trwy fynedfa ddynodedig. Mae arweinwyr a’u tiwtor dosbarth yn cyfarfod â grwpiau blwyddyn a dosbarthiadau bob dydd. Mae hyn yn galluogi staff i ymgysylltu â disgyblion ar ddechrau’r diwrnod ysgol a datrys unrhyw rwystrau posibl rhag dysgu, fel pryderon ynghylch gwisg ysgol neu anghenion o ran offer. Dywed disgyblion fod hyn yn ddechrau buddiol a chadarnhaol i’w diwrnod. Gan fod disgyblion Blwyddyn 11 yn gyfarwydd â’r disgwyliadau, maent yn mynd yn syth i’w hystafell ddosbarth ac yn cael eu cyfarch gan eu tiwtor. Gall disgyblion bregus a’r rhai ag ADY ddewis cyfarfod â staff mewn rhan arall o’r ysgol. Yn ystod amseroedd egwyl ac amser cinio, a thrwy gydol y dydd, mae arweinwyr ar ddyletswydd o gwmpas yr ysgol i gefnogi disgyblion, yn enwedig disgyblion iau. Mae’r strategaethau hyn yn cefnogi cyfnodau pontio esmwyth yn ystod y dydd.

Mewn rhai achosion, mae ysgolion wedi rhoi arferion newydd a buddiol ar waith ar ddechrau a diwedd gwersi. Mae’r arferion hyn yn canolbwyntio ar atgyfnerthu disgwyliadau ymddygiad a chreu amgylchedd mwy rhagweladwy ar gyfer dysgu. Mae’n ymddangos bod hyn yn lleihau ansicrwydd a gorbryder, ac mae hyn wedyn o fudd i athrawon a disgyblion, fel ei gilydd.

### Polisi dysgu ‘ABC-BT’

Mae polisi ymddygiad ar gyfer ‘ABC-BT’ **Ysgol Bryn Tawe** wedi bod yn llwyddiannus o ran gwella agweddau ysgol gyfan at ddysgu. Mae ABC yn sefyll am y nodweddion canlynol:

**A**gwedd at Ddysgu
**B**arod i Ddysgu
**C**efnogaeth i Ddysgu

Mae’r strategaeth wedi’i chynllunio i greu ethos cyson, disgwyliadau clir a meddylfryd gadarnhaol ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr a staff yn annog pob un o’r disgyblion i gymryd perchnogaeth o’u hymddygiadau eu hunain ym mhob gwers a phob dydd. Mae posteri ABC-BT yn weladwy ym mhob ystafell ac mae tiwtoriaid dosbarth yn cyfeirio at y tair egwyddor hyn yn rheolaidd yn eu sesiynau boreol. Mae’r ffaith fod staff yn cyfeirio’n rheolaidd at yr egwyddorion a’u defnydd o iaith gadarnhaol a chanmoliaeth hefyd yn

allweddol i atgyfnerthu’r egwyddorion hyn, er enghraifft - "Ydych chi’n barod i ddysgu? Mae’n dda gweld bod gan bawb eu hoffer...’’

Mae arweinwyr wedi sylwi ar welliant yn agweddau at ddysgu nifer o ddisgyblion a oedd yn peri pryder yn benodol. Mae’r gwelliannau hyn yn cynnwys disgyblion yn dod ag offer i’r ysgol ac yn cyrraedd gwersi’n brydlon. Yn ychwanegol, trwy weithgareddau mentora fel arsylwadau gwersi a theithiau dysgu, nododd arweinwyr fod ymgysylltu gwell mewn dysgu, llai o darfu ac iaith fwy cyson yn cael ei defnyddio gan staff ar draws yr ysgol.

### Creu perthnasoedd gwaith cadarnhaol a diwylliant o berthyn

Mae ysgolion wedi gweithredu ystod o strategaethau i roi ffocws newydd ar greu perthnasoedd gwaith cadarnhaol.

Roedd bron pob un o’r ysgolion yr ymwelom â nhw wedi canolbwyntio ar ailsefydlu perthnasoedd gwaith effeithiol rhwng disgyblion a staff ar ôl y pandemig. Roedd disgyblion a staff wedi bod i ffwrdd oddi wrth ei gilydd am gyfnodau estynedig ac roedd cydnabyddiaeth fod perthnasoedd wedi cael eu heffeithio, yn enwedig rhwng disgyblion iau a staff. Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, roedd ystyriaeth ofalus wedi cael ei rhoi i ailsefydlu’r perthnasoedd hyn. Roedd staff wedi cael hyfforddiant buddiol a gweithgareddau cynlluniedig gyda ffocws ar ‘ddod i adnabod’ disgyblion. Er enghraifft, roedd amser tiwtor yn y bore yn canolbwyntio ar feithrin perthnasoedd rhwng tiwtoriaid a disgyblion, sy’n cynnwys cydweithio â’i gilydd trwy amrywiaeth o weithgareddau gwerthfawr. Roedd disgyblion yn gwerthfawrogi’r amser hwn i siarad a thrafod ag oedolyn y gellir ymddiried ynddo.

Mewn llawer o ysgolion, roedd y tiwtor dosbarth yn aros gyda’u disgyblion o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 11. Roedd hyn yn cael ei werthfawrogi gan staff a disgyblion gan eu bod yn datblygu dealltwriaeth ac empathi sylweddol ar gyfer pob disgybl unigol a’u teuluoedd.

### Arweinwyr Criw

Mae **Ysgol Cantonian** wedi newid y ffordd y mae’n cefnogi lles ei disgyblion iau ac wedi cyflwyno system i feithrin a chynnal perthnasoedd cadarnhaol â nhw a’u teuluoedd. Caiff disgyblion ym Mlynyddoedd 7 ac 8 eu rhoi mewn grwpiau o ryw 12 gydag ‘Arweinydd Criw’ sy’n gallu bod yn athro neu’n aelod o staff nad yw’n addysgu. Mae’r staff hyn yn gweithredu fel oedolion sydd ar gael yn emosiynol sy’n cynnig cymorth ac arweiniad i’w ‘criw’. Siaradodd y staff a’r disgyblion yn gadarnhaol am yr effaith fuddiol a gaiff dosbarthiadau llai ar ymdeimlad disgyblion o berthyn, a nodi sut mae hyn wedi arwain at welliant yn eu presenoldeb ac mewn perthnasoedd rhwng disgyblion, hefyd.

Mae ychydig o ysgolion wedi canolbwyntio ar greu ‘ymdeimlad o berthyn’ ac mae hyn wedi helpu mynd i’r afael ag ymddygiad heriol ac wedi creu gofod diogel a gwerthfawr ar gyfer disgyblion a staff. Mae ymchwil yn awgrymu bod staff yn aros mewn ysgolion lle maent yn teimlo’u bod yn perthyn; mae plant yn mynychu ac yn ffynnu mewn ysgolion lle maent wedi cael eu gwneud i deimlo fel pe baent yn perthyn (Tes, 2023) Sut mae ymdeimlad o berthyn yn yr ysgol yn effeithio ar ymddygiad, cyrhaeddiad a phresenoldeb | Tes. Roedd lleiafrif o’r ysgolion yr ymwelom â nhw yn defnyddio gwahanol ddulliau i gael dealltwriaeth well o anghenion disgyblion yn ystod y cyfnod pontio o’r ysgol gynradd i’r ysgol uwchradd, ac o un grŵp blwyddyn i un arall. Er enghraifft, roedd yr ysgolion yn defnyddio data’r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN) a data Agweddau Disgyblion Atyn Nhw eu Hunain a’r Ysgol (PASS) neu eu holiaduron a’u dulliau casglu data eu hunain. Roedd hyn yn eu galluogi i nodi pryderon ac anghenion disgyblion yn llwyddiannus, ac felly’n eu galluogi i roi ymyriadau a chymorth cynnar ar waith.

### Mae Ysgol Bro Preseli wedi sefydlu ‘Cynllun Cam Ymlaen – Perthyn i Ysgol Bro Preseli’

**Strategaeth**

Mae’r ysgol, dan arweiniad ei Gweithiwr Ieuenctid, ac mewn cydweithrediad â Phrifysgol Harvard, wedi cyflwyno Rhaglen 'Cynllun Harvard' sy’n nodi disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio ac yn darparu cymorth targedig. Mae’r rhaglen yn cynnwys disgyblion mewn prosiectau â sefydliadau amrywiol, fel y Parc Cenedlaethol, gan gynnig gweithgareddau cyfoethogi sy’n hyrwyddo gwaith tîm, yn magu hyder, ac yn rhoi ymdeimlad o berthyn i gymuned yr ysgol.

Mewn cydweithrediad â Phrifysgol Harvard, mae’r ysgol wedi canolbwyntio ar greu ymdeimlad o 'berthyn' ar gyfer ei disgyblion newydd cyn iddynt bontio ym Mlwyddyn 7. Mae’r ysgol yn cydnabod y gall teimladau o beidio â pherthyn, a gwaharddiadau, arwain at ymddygiad aflonyddgar, ac felly wedi cyflwyno holiadur lles ar gyfer pob un o ddisgyblion Blwyddyn 6 yn eu clwstwr i ddadansoddi ymdeimlad disgyblion o berthyn a nodi unrhyw orbryder posibl. Mae Harvard yn darparu cymorth cyson trwy hyfforddiant ar sut i ddadansoddi’r data a gasglwyd gan yr ysgol a chyhoeddi syniadau ar sut i greu ymyrraeth effeithiol. Mae Harvard wedi dynodi unigolyn cyswllt penodol yn sefydliad Harvard sydd bob amser ar gael i ddarparu cymorth. Wedyn, mae arweinwyr wedi cynllunio ymyriadau cynnar i baratoi’r disgyblion hyn a meithrin ymdeimlad o gysylltiad â’r ysgol uwchradd cyn iddynt drosglwyddo i Flwyddyn 7.

**Effaith**

Mae gweithredu’r rhaglen wedi gwella ymdeimlad disgyblion o berthyn o fewn yr ysgol yn sylweddol. Mae’r fenter hon wedi arwain at ymddygiad gwell, presenoldeb gwell,

gwydnwch cynyddol a chymhelliant cynyddol ymhlith cyfranogwyr. Trwy feithrin y perthnasoedd hyn yn gynnar, mae’r ysgol wedi creu amgylchedd dysgu mwy cynhwysol a chadarnhaol ar gyfer disgyblion sy’n dangos gorbryder a phroblemau ymddygiadol.

### Ymgysylltu a chyfathrebu effeithiol â rhieni

Yn y rhan fwyaf o ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd ffocws o’r newydd ar gyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni. Mewn gwirionedd, bron ym mhob ysgol, roedd ailsefydlu perthnasoedd cadarnhaol gydag ychydig o rieni yn broblem ar ôl y pandemig. Roedd cyfnodau maith o’r ysgol yn ystod y pandemig, ac ar ei ôl, yn golygu bod rhieni wedi dod yn amharod i ymgysylltu â’r ysgol. Roedd hyn yn wir pan roedd yr ysgol yn dymuno trafod agweddau ar ymddygiad a phresenoldeb disgyblion.

Mae sicrhau bod rhieni’n teimlo’u bod yn cael cefnogaeth ac yn meddu ar ddealltwriaeth glir o bolisïau ynghylch ymddygiad yn gallu lleihau’r gwrthdaro rhwng rhieni, disgyblion a’r ysgol. Dywedodd llawer o ysgolion eu bod wedi edrych ar ffyrdd amgen o ymgysylltu â rhieni a bod meithrin perthnasoedd cadarnhaol gyda rhieni wedi arwain at ddeilliannau cadarnhaol wrth ymateb i faterion ymddygiadol.

### Diwrnod gyda’n gilydd

Yn **Ysgol Gyfun y Strade**, cafodd strategaeth ‘Diwrnod gyda’n gilydd’ ei sefydlu gyda’r nod i ddod ag ystod eang o wasanaethau a sefydliadau lleol i’r ysgol mewn diwrnod agored ar gyfer rhieni a gofalwyr, fel eu bod yn gwybod mwy am y cymorth sydd ar gael iddynt.

Estynnwyd gwahoddiad i rieni a disgyblion o ysgolion cynradd clwstwr gyda’r nod i gefnogi cyfnod pontio a darparu cymorth cynnar ar gyfer disgyblion a’u teuluoedd. Mae arweinwyr wedi sefydlu dealltwriaeth ar y cyd â rhieni eu bod yn bartneriaid yn addysg eu plant a bod cymorth ar gael i’r teulu cyfan.

Mynychodd elusennau amrywiol y diwrnod, fel cymorth tai, ‘Gofalwyr Ifanc’ a sefydliadau fel ‘CYCA’, ‘Foothold’, ‘Threshold’ a ‘Gweithredu dros Blant’.

Mae ‘CYCA’ – (Cysylltu Ieuenctid, Plant ac Oedolion) yn elusen annibynnol sy’n darparu gwasanaethau cymorth gwahanol i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae’r elusen yn arbenigo mewn darparu cymorth iechyd a lles emosiynol trwy amrywiaeth o brosiectau a gwasanaethau. Gellir manteisio ar y gwasanaeth trwy bresgripsiwn cymdeithasol yn y feddygfa.

https://cycaonline.org/

Mae ‘Foothold’ yn elusen cyfiawnder cymdeithasol sy’n grymuso cymunedau ac unigolion i gyflawni newid go iawn. Mae Foothold yn ymrwymo i sicrhau bod pawb yn cael mynediad cyfartal at wasanaethau hanfodol sy’n gwella’u lles cyffredinol.

https://footholdcymru.org.uk

Mae ‘Threshold’ yn wasanaeth cyngor domestig sydd wedi ymrwymo i ddileu trais a cham-drin menywod, dynion, plant a phobl ifanc. Mae’r sefydliad yn darparu gofod diogel ar gyfer unrhyw un sydd wedi’i effeithio gan drais domestig. Cynigir cymorth i blant a phobl ifanc i ddeall eu hemosiynau, eu hunan-barch, cynllunio diogelwch a chynnal perthnasoedd iach.

Mae ‘Gweithredu dros Blant’ yn darparu cymorth rhianta pwrpasol ar gyfer teuluoedd yn eu cartrefi eu hunain, gan gynnig sesiynau rheoli ymddygiad ar gyfer y teulu. Darperir rhaglenni rhianta ymarferol yn seiliedig ar wybodaeth i gefnogi a rhoi arweiniad i rieni ar broblemau perthynas i yrru newid cadarnhaol.

Mewn ychydig iawn o ysgolion, mae arweinwyr a staff wedi cynnal gweithdai dynodedig i wneud rhieni’n ymwybodol o’u disgwyliadau o ymddygiad disgyblion a’r iaith a ddefnyddir yn yr ysgol i ddisgrifio ymddygiad gwobrwyo a chosbi. Mae hyn yn golygu bod athrawon, disgyblion a rhieni i gyd yn gwybod beth sy’n ddisgwyliedig. Yn ogystal â chymorth ymddygiad, mae gweithdai rhianta eraill yn helpu rhieni i ddeall a chynorthwyo’u plentyn yn well gartref.

### Caffi Lles

Yn **Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf**, mae darpariaeth y ‘Caffi Lles’ wedi cryfhau’r berthynas rhwng rhieni a gofalwyr. Mae’r ysgol yn gwahodd disgyblion a’u rhieni i’r Caffi Lles unwaith bob hanner tymor i rannu gwybodaeth ac arweiniad a rhannu unrhyw bryderon ynghylch lles. Mae staff o asiantaethau cymorth allanol yn dod i siarad â rhieni yn y caffi ac mae hyn wedi bod yn fuddiol ac yn effeithiol. Er enghraifft, mae athrawon arbenigol o’r awdurdod lleol, y seicolegydd addysg a gweithwyr iechyd proffesiynol yn ymgysylltu â rhieni mewn lleoliad anffurfiol ac nad yw’n gyfwynebiadol. Bwriad y sesiynau yw bod yn gefnogol a pheidio â barnu. Mae gweithwyr proffesiynol yn darparu gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael yn uniongyrchol yn yr ysgol, cymorth allanol sydd ar gael ar gyfer disgyblion a rhieni, cymorth a chyngor LHDTC+ ar sut i ddelio â straen a gorbryder. Mae’r sesiynau hyn wedi galluogi rhieni i gael dealltwriaeth well o’r cymorth sydd ar gael a theimlo’n gyfforddus ac yn hyderus wrth gysylltu â’r ysgol gydag unrhyw bryder. Mae hyn yn ei dro yn galluogi i ymyriadau amserol ddigwydd er budd disgyblion yn yr ysgol.

Yn ystod ein hymweliadau, roedd defnydd effeithiol ysgolion o swyddogion ymgysylltu â theuluoedd i gefnogi disgyblion a’u teuluoedd yn gryfder nodedig. Pan mae swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn darparu cymorth effeithiol:

- Maent yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol â theuluoedd. Mae hyn yn helpu nodi unrhyw rwystrau posibl rhag dysgu.
- Maent yn rhannu gwybodaeth ag uwch arweinwyr a staff mewn modd amserol fel y gellir addasu darpariaeth a bod strategaethau’n gallu cael eu rhoi ar waith i liniaru effaith unrhyw rwystrau rhag dysgu.
- Maent yn gweithio mewn partneriaeth ag ystod o asiantaethau i gyfeirio teuluoedd at ystod ehangach o gymorth y tu hwnt i’r diwrnod ysgol.

Er enghraifft, yn Ysgol Gymunedol Glynrhedynog, mae’r swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn gweithio mewn partneriaeth agos â’r CADY ac wedi monitro presenoldeb disgyblion yn ofalus mewn cyfnodau pontio. Mae’r swyddog ymgysylltu â theuluoedd wedi gweithio mewn partneriaeth agos â darpariaeth iechyd meddwl yr awdurdod lleol i sicrhau bod disgyblion a theuluoedd yn cael cymorth pwrpasol.

**Y Pantri**

Yn **Ysgol Cwm Brombil**, mae’r tîm ymgysylltu â theuluoedd wedi cryfhau’r cysylltiad rhwng yr ysgol a’r cartref trwy fentrau strategol. Mae 'Y Pantri', sef y banc bwyd mewnol, yn darparu cymorth hanfodol gan gynnwys cyflenwadau bwyd, prydau parod, cynhyrchion hylendid, offer coginio, a chardiau ryseitiau wythnosol ar gyfer aelodau o’r gymuned. Mae’r rhwydwaith cymorth cynhwysfawr yn ymestyn y tu hwnt i anghenion sylfaenol. Mae’r tîm yn cynnig gwasanaeth cymorth i deuluoedd ar-lein, banc gwisg ysgol, a sesiynau datblygu medrau lle gall teuluoedd wella’u medrau sylfaenol a chael arweiniad ar reolaeth ariannol. Mae’r ymagwedd hon at gymorth i deuluoedd wedi meithrin ymddiriedaeth a didwylledd, sy’n arbennig o werthfawr wrth fynd i’r afael â heriau ymddygiadol.

Trwy gyllid partneriaeth llwyddiannus, ceir cyfleoedd gwirfoddoli ystyrlon yn ‘Y Pantri’. Mae’r fenter hon wedi bod yn effeithiol, gan alluogi rhieni i fagu hyder a phontio i gyflogaeth am dâl tra’n datblygu cysylltiadau cryfach â chymuned yr ysgol.

Mae’r ysgol wedi lansio llawer o raglenni cymunedol llwyddiannus, sef:

- clwb garddio rhwng cenedlaethau sy’n dod â phobl at ei gilydd ar gyfer gweithgareddau awyr agored a rhyngweithio cymdeithasol
- clwb coginio sy’n addysgu teuluoedd i baratoi prydau bwyd maethlon o’r dechrau’n deg, sydd wedi gwella presenoldeb disgyblion yn neilltuol trwy wneud yr ysgol yn fwy difyr

- clwb gwaith cartref cydweithredol lle mae rhieni a phlant yn derbyn cymorth gan staff, gan hybu cyfraddau cwblhau gwaith cartref ac ymgysylltiad rhieni ag addysg
- clwb llyfrau cymunedol sy’n cryfhau perthnasoedd rhieni a phlant, sy’n cael effaith gadarnhaol gartref ac yn yr ysgol

Caiff cymorth ymarferol ei gynnig trwy foreau coffi rheolaidd, sesiynau galw i mewn, a chylchoedd chwarae. Gall partneriaeth â Greggs Foundation gynorthwyo teuluoedd ag eitemau hanfodol y cartref, gan gynnwys dodrefn a chyfarpar. Mae’r mentrau hyn wedi sefydlu hyb cymunedol sy’n cefnogi nid dim ond disgyblion, ond teuluoedd cyfan.

## Cefnogi disgyblion ag ymddygiad heriol

### Dulliau cwricwlaidd

Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, nodom fod y cwricwlwm yn cael ei gynllunio a’i gyflwyno’n ofalus. Roedd yn cynnwys profiadau dysgu lleol, cenedlaethol a byd-eang a oedd yn gyfoes ac yn cael eu cefnogi gan gyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol disgyblion.

Yn yr enghreifftiau gorau, roedd athrawon yn cynllunio’u gwersi’n ystyriol. Roeddent yn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion unigol disgyblion, yn cynllunio gweithgareddau a oedd yn ymgysylltu ac yn datblygu eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth, ac yn addasu’r wers pan roedd angen.

Roedd systemau ar gyfer casglu barn disgyblion, yn enwedig y rhai â phroblemau ymddygiadol, er mwyn gwerthuso addysgu a phrofiadau dysgu, yn nodwedd gref, ac roedd staff yn ystyried addasiadau rhesymol i’w darpariaeth ar sail barn disgyblion.

Yng nghyfnod allweddol 4, roedd ystod eang o ddewis cwricwlwm, fel arfer. Yn aml, roedd amrywiaeth o gyrsiau galwedigaethol yn cael eu cynnwys yng nghynnig yr ysgolion. Roedd disgyblion a oedd yn wynebu heriau ynglŷn â’u hymddygiad yn aml yn elwa ar gyrsiau galwedigaethol gydag elfen ymarferol gref. Er enghraifft, mae cyrsiau fel gwaith gefail, amaethyddiaeth, adeiladu, addysg gorfforol, cymwysterau TG a darpariaeth ysgol goedwig yn dda ar gyfer anghenion y disgyblion hyn.

Mewn mwyafrif o ysgolion, roedd amserlenni unigoledig yn cael eu cynllunio ar gyfer disgyblion â’r ymddygiad mwyaf heriol. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd y rhain yn cael eu cynllunio’n ofalus ac yn cynnwys mewnbwn rhieni. Roedd y rhain yn cynnwys cydbwysedd synhwyrol rhwng amser mewn gwersi prif ffrwd (wedi’u dewis yn ofalus) ac amser mewn darpariaeth fewnol amgen lle roedd disgyblion yn cael cymorth emosiynol ac yn cael help i ddatblygu medrau ymarferol ac ennill cymwysterau.

Mewn ychydig o ysgolion, roedd cyfleoedd profiad gwaith addas neu ddarpariaeth mewn darparwyr addysg allanol wedi cael eu cyrchu a’u hintegreiddio’n ofalus yn yr wythnos ysgol. Roedd y rhain yn cynnwys sesiynau strwythuredig rheoli dicter mewn campfa leol a chyfle i wirfoddoli mewn siop elusen leol.

### Rhaglen Strade yn y Gymuned

Yn **Ysgol Gyfun y Strade**, cyflwynwyd rhaglen ‘Strade yn y Gymuned’ gyda’r nod i ehangu profiadau dysgu grwpiau o ddysgwyr sydd â lefelau ymgysylltu isel, ymddygiadau heriol neu bresenoldeb gwael.

Mae’r ysgol yn cydweithio â thros 15 o wasanaethau, sefydliadau a busnesau lleol i dargedu dysgwyr penodol ag ymyriadau priodol. Er enghraifft, roedd grŵp o ferched Blwyddyn 10 sydd â chymhelliant isel ac agweddau negyddol at ddysgu yn mynychu cartref gofal lleol am brynhawn yr wythnos am gyfnod o wyth wythnos. Roeddent yn cwblhau tasgau gofalu sylfaenol â chymorth, ac felly’n datblygu eu hyder a’u medrau cyfathrebu yn dda. Arweiniodd hyn yn ei dro at wella ymddygiad yn ôl yn yr ysgol.

Prosiect coginio ar y cyd rhwng yr ysgol a Foothold https://footholdcymru.org.uk yng nghanol tref Llanelli oedd ‘Breaking Bread’. Roedd dysgwyr o aelwydydd incwm isel yn dysgu medrau coginio ochr yn ochr â phobl o’r gymuned. Dywedodd yr ysgol fod gwelliant sylweddol ym mhresenoldeb y grŵp hwn o ddysgwyr a’u hagweddau at ddysgu.

## Darpariaethau penodol ar gyfer cefnogi disgyblion sy’n dangos heriau ymddygiadol

Mewn lleiafrif o ysgolion yr ymwelwyd â nhw, roedd arweinwyr wedi nodi bod disgyblion ag ymddygiad gwael yn elwa ar ddull anogaeth, yn enwedig ym Mlynyddoedd 7 ac 8. Nododd gwybodaeth a gasglwyd o ysgolion cynradd clwstwr fod angen gwella medrau sylfaenol gwan disgyblion, gan gynnwys heriau ynghylch llythrennedd (datblygiad lleferydd ac iaith, sgorau darllen isel a medrau ysgrifennu gwan), diffygion rhifedd (yn cynnwys dyscalcwlia), ac anghenion lles (gan gynnwys lefelau uchel o orbryder ac EBSA). Pan nad aethpwyd i’r afael â’r anghenion hyn, roedd ymddygiadau mwy heriol yn dwysáu.

### Darpariaethau ymddygiadol yn Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd

Mae **Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd** yn cefnogi disgyblion yn dda trwy nifer o ddarpariaethau ymddygiadol.

Mae'r ysgol yn defnyddio dosbarthiadau arddull 'cynradd' ym Mlwyddyn 7 a Blwyddyn 8 ar gyfer disgyblion â medrau llythrennedd gwan. Cynhelir y rhain yn rhan-amser ac maent yn canolbwyntio'n bennaf ar wella medrau llythrennedd disgyblion i'w galluogi i ailintegreiddio'n llawn yn y brif ffrwd cyn gynted ag y byddant yn barod i wneud hynny, a disgyblion yn aros yn y brif ffrwd ar gyfer addysg gorfforol, celf, a rhai gwersi eraill.

Ceir dosbarthiadau ar gyfer disgyblion ag anghenion emosiynol a lles, a sesiynau ar gyfer disgyblion sy'n cael trafferth ymddwyn yn dda mewn gwersi prif ffrwd. Ceir uned anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol (AYECh), hefyd.

Mae'r ysgol yn cynnal ei darpariaeth allymestyn ei hun lle mae swyddogion ymgysylltu â theuluoedd yn ymweld â chartrefi disgyblion. Caiff y darpariaethau amrywiol i gyd eu cynnal gan staff sydd wedi cael hyfforddiant helaeth mewn darpariaeth anogaeth, arfer adferol a rheoli dicter. Mae hyn wedi sicrhau bod staff yn gallu cyflenwi cymorth addas, strwythuredig a gall disgyblion ddysgu a ffynnu. Mae hyn wedi bod yn allweddol wrth gefnogi'r daith gyffredinol i wella ymddygiad a welwyd yn yr ysgol.

Roedd y rhan fwyaf o ysgolion wedi datblygu eu darpariaethau mewnol eu hunain ar gyfer disgyblion ag anghenion ymddygiadol heriol. Yn yr enghreifftiau gorau, roedd arweinwyr yn gwerthuso'u haddasrwydd yn rheolaidd, yn gwneud addasiadau ac yn sicrhau bod ganddynt adnoddau da. Roeddent yn cael eu harwain yn effeithiol gan aelodau staff parhaol, hyfforddedig ac yn darparu cymorth ystyriol, trwy gyfleoedd dysgu gwerthfawr a rhaglenni cymorth ymddygiad teilwredig. Nododd y rhan fwyaf o arweinwyr a staff ysgolion fod y rhain yn hanfodol i helpu mynd i'r afael â'r heriau ymddygiadol yr oeddent yn eu hwynebu.

### Llwybr dysgu llythrennedd a rhifedd

Yn **Ysgol Uwchradd Cathays**, mae arweinwyr wedi diwygio dulliau rheoli ymddygiad yr ysgol yn ofalus ac wedi cyflwyno prosesau clir i ymateb i'r lefelau gwahanol o ymddygiad gwael. Nododd yr ysgol fod amrywiaeth o ymyriadau, fel dosbarthiadau darpariaeth amgen amser llawn, yn cael effaith fach iawn ar newid ymddygiad. Nododd arweinwyr fod medrau llythrennedd a rhifedd gwan yn aml yn achosi i ddisgyblion ymddieithrio rhag dysgu neu gamymddwyn. Ar ôl ymgynghori yn yr ysgol a chynllunio agos, mae'r ysgol wedi datblygu darpariaeth llwybr dysgu llythrennedd a rhifedd yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, sy'n darparu cymorth llythrennedd a rhifedd dwys. Caiff y ddarpariaeth hon ei hategu gan gyfle i ddilyn cyrsiau galwedigaethol. Mae'r dull teilwredig hwn yn helpu cynnal ymgysylltiad disgyblion â'u gwersi ac yn cadw eu hymdeimlad o berthyn yng nghymuned yr ysgol.

### ‘Ystafell Perthyn’ ac ‘Yr Hafan’

Mae staff yn **Ysgol Bryn Tawe** wedi sefydlu dwy ganolfan adnoddau fewnol, sef: ‘Ystafell Perthyn’ ac ‘Yr Hafan’ i gefnogi disgyblion.

Mae **Ystafell Perthyn** yn ystafell aml-ddefnydd sy’n cael ei rheoli gan ddau gynorthwyydd bugeiliol a’i chefnogi gan arweinwyr dysgu (Penaethiaid Blwyddyn). Y nod yw cynorthwyo dysgwyr i wella’u hagweddau at ddysgu a’u helpu i ymdopi â bywyd ysgol o ddydd i ddydd. Mae’r tîm yn gweithredu’n ddyddiol trwy:

- gefnogi dysgwyr â phroblemau ymddygiadol trwy sesiynau mentora, sgyrsiau lles (gwirio) a gweithredu fel 'oedolyn y gellir ymddiried ynddo'
- monitro a chefnogi patrymau ymddygiad dysgwyr, gan gynnwys ffurfio grwpiau targed
- cefnogi dysgwyr y mae angen iddynt reoleiddio cyn dychwelyd i ddysgu
- monitro a chefnogi patrymau ymddygiad dysgwyr, gan gynnwys ffurfio grwpiau targed
- cydweithio ag unigolion amrywiol o asiantaethau allanol i gefnogi dysgwyr
- cynnal sesiynau dilynol ar gyfer dysgwyr i’w cynorthwyo ag ailintegreiddio ar ôl gwaharddiad mewnol

Mae **Yr Hafan** yn cynnwys:

- lle tawel ar gyfer dysgwyr ag anghenion emosiynol, iechyd meddwl neu gymdeithasol
- sesiynau i unigolion a grwpiau ar themâu amrywiol; er enghraifft, ymdopi â gorbryder, hyrwyddo hunanddelwedd a datblygu perthnasoedd cadarnhaol
- darparu gweithgareddau fel sesiynau garddio, prosiectau adeiladu a thasgau amgylcheddol fel plannu coed; mae’r rhain wedi’u bwriadu i ddatblygu meddylfryd cadarnhaol, gwella hunanddelwedd dysgwyr, datblygu ymdeimlad o berthyn i’r ysgol trwy ymgymryd â gweithgareddau cadarnhaol yn yr awyr agored, a thrwy wneud y rhain, datblygu strategaethau ymdopi
- gweithgareddau grŵp gydag asiantaethau allanol, er enghraifft CAMHS
- cefnogi dysgwyr trwy gynnig lle tawel iddynt ymdawelu a defnyddio’r adnoddau ‘rheoleiddio’ sydd ar gael yn yr ystafelloedd, pan fydd angen
- cefnogi dysgwyr bregus sy’n ei chael yn anodd mynd i’r ysgol tra byddant yn dilyn cynllun ailintegreiddio

Dywedodd disgyblion sy’n cael cymorth gan Perthyn a Hafan wrthym fod y cymorth hwn yn eu helpu i ymdopi â’r ysgol, gwella’u hagweddau a chael ymdeimlad o berthyn.

Mae’r ysgol wedi sylwi bod gwelliant yn ymddygiad llawer o ddisgyblion a gostyngiad mewn gwaharddiadau cyfnod penodol ar draws yr ysgol. Mae asiantaethau allanol sy’n

gweithio gyda’r ysgol yn gwerthfawrogi cael ardal bwrpasol i weithio gyda staff dynodedig pan fyddant yn ymweld.

### Dysgu proffesiynol a strategaethau i gefnogi staff a disgyblion

Mae llawer o ysgolion wedi darparu hyfforddiant i staff sy’n cwmpasu gwahanol ddulliau rheoli ymddygiad, gan gynnwys gwaith adferol ac arfer sy’n ystyriol o drawma. Yn yr ysgolion mwyaf effeithiol, mae arweinwyr a staff wedi ystyried ystod o ddulliau ac wedi addasu’r rhain yn synhwyrol i weddu i’w cyd-destun a’u lefel angen eu hunain.

#### Dulliau adferol

Er enghraifft, yn **Ysgol Bryn Alun**, mae gan staff ymagwedd ystyrlon at ddulliau adferol. Pan fydd disgybl wedi cael ei dynnu allan o wers oherwydd ymddygiad gwael, mae staff yn sicrhau bod y disgybl hwn yn cymryd rhan mewn sgwrs adferol gyda’r athro perthnasol. Caiff y sgwrs hon ei hwyluso gan aelod o staff medrus a diduedd a chaiff ei chynnal ar ôl yr ysgol, fel arfer. Mae hyn fel arfer yn arwain at adfer y berthynas rhwng y disgybl a’r athro ac yn galluogi’r disgybl i ddychwelyd i’w wersi.

Mewn ychydig o ysgolion, mae arweinwyr wedi sefydlu gweithgorau staff sefydledig i adolygu eu hymagweddau at reoli ymddygiad yn rheolaidd a gwerthuso arfer bresennol trwy ystyried eu heffaith a sut mae wedi bod o fudd i ddisgyblion. O ganlyniad i hyn, mae rhai ysgolion wedi treialu ymagweddau newydd at hyrwyddo ymddygiad a rhoi adborth i staff ar eu harfer. Nodwedd ddiddorol o waith ychydig o weithgorau yw ‘Hyfforddiant Athro i Athro’, lle mae staff yn cynllunio gweithgareddau sy’n herio’u cydweithwyr i feddwl am eu ffordd o reoli ymddygiad ac wedyn cyd-greu pecyn cymorth ymddygiad i staff ei dreialu yn yr ystafell ddosbarth.

Mewn ychydig o ysgolion yr ymwelom â nhw, mae staff wedi cael ‘sgriptiau’ y gellir eu defnyddio i’w cynorthwyo wrth ddelio â disgyblion ag ymddygiad heriol. Mae’r ymagwedd hon yn helpu sicrhau cysondeb yn y defnydd o iaith ar draws yr ysgol. Dywedodd disgyblion wrthym eu bod yn gwerthfawrogi’r ymagwedd gyson hon.

### Llyfrynnau arweiniad

Er enghraifft, yn **Ysgol Penyrheol**, rhoddir llawlyfr arweiniad ‘arferion a sgriptiau micro’ i staff.

Mae’r arweiniad yn ymarferol iawn, gan ddarparu sgriptiau argymelledig i athrawon eu defnyddio mewn senarios, er enghraifft pan fydd disgybl yn cyrraedd gwers yn hwyr neu pan fydd athro yn digwydd clywed disgybl yn dweud rhywbeth amhriodol wrth ddisgybl arall. Mae’r arweiniad yn cwmpasu meysydd heriol cyffredin fel gwrthod tynnu côt neu gydymffurfio â’r polisi gwisg ysgol, gwrthod ymgysylltu â dysgu a sut i ddelio â cheisiadau i adael yr ystafell ddosbarth.

Mae’r arweiniad yn cynorthwyo staff ar draws yr ysgol i ddefnyddio iaith gyffredin sy’n cyfrannu at gynnal perthnasoedd da. Mae’n helpu athrawon i ddefnyddio’r ‘dacteg leiaf ymwthiol sy’n bosibl’ i ymdrin â disgyblion nad yw eu hymddygiad yn bodloni disgwyliadau ac yn eu helpu i atal materion rhag dwysáu. O ganlyniad, mae staff yn fwy hyderus ynghylch mynd i’r afael â materion ac mae mwy o gysondeb yn yr ymagweddau sy’n cael eu mabwysiadu.

O ganlyniad, caiff llai o ddisgyblion eu tynnu allan o wersi oherwydd ymddygiad gwael, mae gwaharddiadau wedi lleihau, a morâl staff wedi gwella.

Mewn ychydig o ysgolion yr ymwelom â nhw, roedd staff yn gwerthfawrogi’r cyfleoedd yr oeddent yn eu cael i drafod ymddygiad gyda staff allweddol eraill. Roeddent yn teimlo bod hyn wedi lleihau gorbryder ynghylch materion ymddygiadol, yn rhoi cyfleoedd iddynt fyfyrio ar eu hymagweddau eu hunain, ac yn darparu mentrau newydd i roi cynnig arnynt.

### Gweithgor lles staff

Yn **Ysgol Bro Preseli**, roedd yr ysgol yn cydnabod effaith tarfu ar lefel isel ar les staff ac yn gweithio’n rhagweithiol i fynd i’r afael â hyn. Er mwyn meithrin amgylchedd cefnogol, sefydlodd yr ysgol ‘weithgor lles staff’ gyda chynrychiolwyr o bob lefel o gyfrifoldeb, gan gynnwys uwch reolwyr, arweinwyr pwnc, athrawon, cynorthwywyr cymorth dysgu a staff gweinyddol. Mae’r grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion sy’n effeithio ar staff a chynllunio gyda’i gilydd sut byddant yn ymateb i’r heriau.

Yn ogystal â’r gweithgor lles, mae’r ysgol wedi cyflwyno cyfarfod staff wythnosol i ddarparu platfform ar gyfer deialog agored, lle gall staff leisio pryderon a rhannu syniadau. Mae’r fenter hon yn grymuso staff ac yn sicrhau yr eir i’r afael â materion yn

brydlon ac yn effeithiol. Maent yn trafod gwahanol ffyrdd i reoli tarfu ar lefel isel a sut i roi technegau tynnu sylw ar waith.

Mae pob un o staff yr ysgol wedi cael hyfforddiant ar effaith trawma ar blant a phobl ifanc. Mae hyn wedi rhoi dealltwriaeth ddyfnach iddynt o wir achosion ymddygiad disgyblion ac wedi arwain at empathi cynyddol ac ymatebion gwybodus i ddigwyddiadau. Trwy gydnabod patrymau ymddygiad yn gysylltiedig â thrawma, gall staff fynd i’r afael â materion yn fwy effeithiol a chefnogi disgyblion mewn ffordd ystyrlon.

Mae’r mentrau rhagweithiol hyn wedi helpu hyrwyddo diwylliant o gynwysoldeb a chymorth yn Ysgol Bro Preseli lle mae staff yn teimlo’u bod yn cael eu clywed a’u gwerthfawrogi. Maent yn teimlo’n llai ynysig ac mae ganddynt ymdeimlad cynyddol o berthyn i’r ysgol. Mae datrys pryderon mewn modd amserol wedi cyfrannu at forâl gwell, cydlyniant tîm cryfach, ac amgylchedd gwaith mwy cadarnhaol.

Mewn ychydig o ysgolion, roedd staff yn gwerthfawrogi gohebiaeth a chyfleoedd rheolaidd i rannu gwybodaeth am ddisgyblion sy’n dangos ymddygiad heriol, er enghraifft trwy fwletinau a thrafodaethau wythnosol neu ddyddiol gyda staff cymorth bugeiliol ac ymddygiad. Mae rhannu gwybodaeth allweddol wedi grymuso staff i wneud addasiadau rhesymol lle ceir heriau ymddygiadol a chynllunio’u gwersi yn unol â hynny.

### Ymagwedd rheoli achosion

Ymagwedd **‘rheoli achosion’** at reoli disgyblion sy’n dangos ymddygiad heriol, sydd ag agweddau gwael at ddysgu ac yn gwneud cynnydd academaidd isel.


Nododd yr ysgol grŵp bach o ddisgyblion targed i weithio gyda nhw, yn seiliedig ar ddadansoddiad o gynnydd a data ymddygiad bob hanner tymor. Estynnwyd gwahoddiad i athrawon y disgyblion hyn drafod pob disgybl yn unigol mewn cyfarfod. Cyn y cyfarfod, rhoddwyd gwybodaeth gefndir i staff am y disgybl, a oedd yn cynnwys ei ddiddordebau, ei gryfderau, data cyrhaeddiad a gwybodaeth berthnasol am les.

Edrychodd staff ar waith y disgyblion yn eu llyfrau a nodi eu hanghenion penodol. Wedyn, buont yn trafod nodau tymor byr, strategaethau addysgu ac unrhyw adnoddau roedd eu hangen ar gyfer pob disgybl yn y grŵp.

Mae’r ymagwedd hon at reoli achosion wedi bod yn llwyddiannus wrth gefnogi disgyblion â heriau ymddygiadol i wella’u hymddygiadau a gwneud cynnydd mewn dysgu. Mae wedi grymuso athrawon i weithio gyda’i gilydd i ddod o hyd i atebion ar gyfer disgyblion unigol a gwella’u strategaethau rheoli ymddygiad dros gyfnod.

## Canlyniadau’r arolygon

Tra bod tystiolaeth o’r ymatebion i’r holiadur wedi cael ei hymgorffori yn yr adrannau uchod, mae’r adran hon yn darparu ymatebion llawn i’r holiaduron a dadansoddiad o ymatebion testun agored.




### Crynodeb o’r prif themâu o ymatebion disgyblion

Yn siartiau 1 – 4 isod, rydym yn cyflwyno ymatebion a roddodd disgyblion i gwestiynau am sut maent yn graddio ymddygiad eu cyfoedion mewn gwersi a’r tu allan i wersi, a pha ymddygiadau maen nhw’n meddwl achosodd y rhan fwyaf o broblemau[1]. Fe wnaethom hefyd alluogi disgyblion i roi mwy o sylwadau am ymddygiad. Mae ymatebion i’r olaf yn amlygu nifer o themâu allweddol. Mae’r rhain yn cynnwys amgyffrediadau o barch ar y ddwy ochr rhwng athrawon a disgyblion, effaith ymddygiad athrawon ar ymddygiad disgyblion, problemau â disgyblaeth, a phryderon am degwch a chymorth.

### Parch ar y ddwy ochr ac ymddygiad athrawon

Pwysleisiodd llawer o ddisgyblion fod eu hymddygiad yn gwella pan mae athrawon yn dangos parch tuag atyn nhw ac yn eu trin yn deg. Roeddent yn gwerthfawrogi athrawon sy’n gwrando, yn osgoi gweiddi, ac yn trin disgyblion â dealltwriaeth. Fel y dywedodd un disgybl, “Mae’n siŵr na fydd ymddygiad yn gwella rhyw lawer oni bai fod yr athrawon

[1] Gallwch ddod o hyd i gopïau o’r holiaduron a ddefnyddiwyd yn yr adolygiad hwn ar y dudalen gyhoeddiadau.

yn parchu ni.” I’r gwrthwyneb, dywed disgyblion eu bod yn ymddieithrio pan roedd athrawon yn ymddangos yn ddiystyriol neu’n nawddoglyd. Mae rhai ohonynt yn mynegi rhwystredigaeth â ffafriaeth ganfyddedig, fel y nodwyd gan ddisgybl: “Byddai’n anhygoel pe gallai athro ymddwyn yn dda a gosod esiampl.”

### Disgyblaeth a rheolaeth ystafell ddosbarth

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn disgrifio ymddygiadau aflonyddgar mynych mewn gwersi, gan gynnwys gweiddi allan, ateb yn ôl a fandaliaeth. Mae materion cyffredin yn cynnwys “cnoi gwm,” “taflu offer,” a “gwneud jôcs cas.” Roedd rhai disgyblion yn galw am ddisgyblaeth lymach, tra bod disgyblion eraill yn beirniadu sut caiff cosbau eu defnyddio’n anghyson, gan ddweud, “Ni ymdrinnir yn dda â’r ymddygiad o gwbl.”

### Tegwch a chymorth


Pryder mynych oedd nad oedd athrawon weithiau’n cynorthwyo disgyblion yn deg. Roedd rhai disgyblion yn teimlo’u bod yn cael eu hanwybyddu, a dywedodd un ohonynt, “Dydy hanner y dosbarth ddim yn deall unrhyw beth gan yr athrawon gan nad yw’r athrawon yn poeni o gwbl.” Dywedont hefyd fod athrawon yn canolbwyntio mwy ar orfodi mân reolau na mynd i’r afael â materion difrifol fel bwlio neu hiliaeth: “Mae athrawon ond yn poeni am gasys pensiliau neu ffonau symudol.”

### Parch rhwng cyfoedion

Mynegwyd pryderon gan ddisgyblion am ymddygiad amharchus ymhlith cyd-ddisgyblion, gan gynnwys bwlio, sylwadau digywilydd, a mynd ag eiddo’i gilydd. Nodont hefyd eu bod yn anesmwyth pan roedd athrawon yn gwrthod ceisiadau am gymorth â threfniadau eistedd neu faterion personol: “Teimlo’n anghyfforddus yn eistedd nesaf at bobl sy’n gwneud i chi deimlo’n anghyfforddus, a dydy athrawon ddim yn gadael i chi symud.”


At ei gilydd, roedd disgyblion o’r farn fod parch ar y ddwy ochr yn ganolog i wella ymddygiad a phrofiadau dysgu. Roeddent yn galw am driniaeth gyson a theg gan athrawon, ymdriniaeth well ag ymddygiadau aflonyddgar, a systemau cymorth cryfach ar gyfer materion personol ac academaidd.

**Siart 1: Ar raddfa o 1-5, sut byddech chi’n graddio ymddygiad yn eich gwersi?**





Canran yn seiliedig ar ymatebion gan 1,684 o ddisgyblion.
Mae graddau ar raddfa o 1 i 5, lle mae 1= Anfoddhaol a 5=Rhagorol.

**Siart 2: Ar raddfa o 1-5, sut byddech chi’n graddio ymddygiad o gwmpas yr ysgol yn ystod amser egwyl, amser cinio a rhwng gwersi?**





Canran yn seiliedig ar ymatebion gan 1,692 o ddisgyblion.
Mae graddau ar raddfa o 1 i 5, lle mae 1= Anfoddhaol a 5=Rhagorol.

**Siart 3: Ar sail eich profiad yn ystod amser egwyl, amser cinio a rhwng gwersi eleni, allwch chi nodi'r ymddygiadau sydd wedi achosi'r problemau mwyaf? Dewiswch bob un sy'n berthnasol:**




Canran yn seiliedig ar ymatebion gan 1,641 o ddisgyblion.
Mae graddau ar raddfa o 1 i 5, lle mae 1= Anfoddhaol a 5=Rhagorol.

**Siart 4: Yn eich barn chi, pa un o’r datganiadau canlynol sy’n wir am y disgwyliadau yn eich ysgol?**




Canran yn seiliedig ar ymatebion gan 1,640 o ddisgyblion

## Crynodeb o’r prif themâu o arolygon penaethiaid

Mae’r ymatebion yn amlygu pryderon allweddol ynghylch ymddygiad disgyblion, ei reoli, a’r cymorth sydd ar gael i ysgolion. Disgrifiodd y rhan fwyaf o ymatebwyr fod ymddygiad yn dda ymhlith y rhan fwyaf o ddisgyblion, er bod ychydig ohonynt yn dangos ymddygiad aflonyddgar parhaus ac eithafol. Soniodd llawer ohonynt am heriau maen nhw wedi sylwi arnynt ers y cyfnodau clo a orfodwyd o ganlyniad i bandemig COVID-19, ac maent yn eu priodoli i hynny, gan gynnwys herfeiddio cynyddol, llai o wydnwch, a diffyg medrau cymdeithasol. Dywedont fod ymgysylltiad cyfyngedig rhieni a materion cymdeithasol, fel dylanwad y cyfryngau cymdeithasol ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol cymunedol, yn gwaethygu problemau.

Dywedodd ysgolion eu bod yn defnyddio strategaethau amrywiol, gan gynnwys rheoli ymddygiad cyson, arferion adferol, a dulliau sy’n ystyriol o drawma. Fodd bynnag, dywedont fod llai o gyllid, toriadau staff a gwasanaethau cymorth arbenigol annigonol yn rhwystro cynnydd. Pryder sylweddol sy’n deillio o ymatebion y penaethiaid yw’r diffyg lleoedd mewn darpariaethau arbenigol fel UCDau, a phwysleisiodd llawer o ymatebwyr fod angen dybryd am wasanaethau allanol wedi’u hariannu’n well a pholisïau cenedlaethol cliriach.

Mae dyfyniadau cynrychioliadol yn cynnwys:

> "Mae 95% o ddysgwyr yn ymddwyn yn dda bob amser. Mae gan y 5% arall anghenion y tu hwnt i’r hyn y gall lleoliad ysgol ei ddarparu."
>
> "Mae ychydig iawn o adnoddau i gefnogi’r plant hyn, a gyda chyllidebau sy’n gostwng, toriadau i staff, a dim lleoedd mewn UCDau, mae’r plant hyn yn anodd iawn i’w cynorthwyo."
>
> "Does gan rieni ddim dylanwad dros ymddygiad eu plant. Mae’r cyfryngau cymdeithasol yn ysgogi llawer o broblemau yn ein hysgol ni."

At ei gilydd, roedd ymatebwyr yn gofyn am gydweithio cryfach rhwng ysgolion, teuluoedd ac asiantaethau allanol, wedi’i gefnogi gan fuddsoddiad ariannol cynaledig a newidiadau polisi cenedlaethol.

### Crynodebau yn ôl Cwestiwn

**Defnyddiwch y gwagle a ddarparwyd os oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach am ymddygiad o gwmpas yr ysgol.**

Disgrifiodd y rhan fwyaf o ymatebwyr fod ymddygiad yn yr ysgol yn dda, ar y cyfan, a bod tua 90-95% o ddisgyblion yn dilyn disgwyliadau. Fodd bynnag, dywedont fod ychydig o ddisgyblion yn arddangos heriau sylweddol, gan gynnwys herfeiddiad, tarfu yn yr ystafell ddosbarth, a defnydd amhriodol o ffonau symudol. Roedd materion ar ôl y pandemig fel llai o wydnwch cymdeithasol, herfeiddio cynyddol, a llai o reolaeth gan rieni, yn cael eu nodi’n fynych.

**Themâu Allweddol:**

- **Materion Parhaus:** "Mae ymddygiad lleiafrif bach llawer mwy eithafol wedi gwaethygu ers Covid."
- **Cymorth Rhieni:** "Mae amharodrwydd rhieni i fynd i’r afael ag ymddygiad heriol yn cefnogi agweddau herfeiddiol."
- **Cyfyngiadau o ran Adnoddau:** "Mae gan yr ysgol lai o adnoddau i gefnogi disgyblion heriol oherwydd toriadau i gyllidebau."

**Pa rai o’r canlynol yw’r ffyrdd mwyaf effeithiol o hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, yn eich barn chi?**

Roedd cysondeb, disgwyliadau clir, a chydweithio rhwng rhieni a’r ysgol, yn cael eu crybwyll yn eang. Pwysleisiodd ymatebwyr fod angen cymhwyso cosbau a rheolau clir yn gyson, a pherthnasoedd cryf â disgyblion a theuluoedd. Roedd dulliau sy’n ystyriol o drawma ac ymyriadau cynnar yn cael eu nodi’n fynych, hefyd.

**Themâu Allweddol:**

- **Cysondeb:** "Mae disgwyliadau gwaelodlin sy’n cael eu cymhwyso’n gyson yn hanfodol."
- **Ymgysylltu â Rhieni:** "Meithrin perthnasoedd â rhieni i gael cefnogaeth, er nad yw pob un ohonyn nhw’n fodlon cydweithredu."
- **Cymorth Targedig:** "Mae nodi anghenion yn dda a chymorth pwrpasol yn gallu helpu mynd i’r afael â materion ymddygiad."

**Pa mor effeithiol y mae eich ALl / rhanbarth yn cefnogi’r ysgol â heriau ymddygiad?**

Mynegodd y rhan fwyaf o ymatebwyr anfoddhad â chymorth gan yr awdurdod lleol (ALl), gan ei ddisgrifio yn annigonol o ganlyniad i brinderau mewn cyllid a staffio. Dywedodd llawer ohonynt fod amseroedd aros hir am wasanaethau arbenigol a UCDau wedi’u gorlethu. Nodwyd bod cydweithio rhwng ysgolion weithiau’n fuddiol ond yn anghyson.

**Themâu Allweddol:**

- **Capasiti Cyfyngedig:** "Mae un arbenigwr ymddygiad yn cael ei rannu ymhlith pob un o’r ysgolion ar hyn o bryd."
- **Biwrocratiaeth:** "Mae’r cymorth yn araf ac wedi’i gladdu o dan waith papur maith."
- **Prinderau o ran Adnoddau:** "Mae dim UCDau a diffyg capasiti yn golygu bod rhaid i ysgolion reoli ymddygiadau eithafol ar eu pen eu hunain."

**A oes enghreifftiau o ddulliau ymddygiad sy’n gweithio’n dda yn eich ysgol? Beth yw rhinweddau allweddol y dulliau hyn?**

Nodwyd llawer o ddulliau llwyddiannus, gan gynnwys arferion cyson o ran staff, strategaethau sy’n ystyriol o drawma, ac arfer adferol. Roedd codau ystafell ddosbarth clir, arferion cyfarfod a chyfarch, a phresenoldeb gweladwy staff yn cael eu hamlygu’n fynych.

**Themâu Allweddol:**

- **Cysondeb a Disgwyliadau:** "Mae codau ystafell ddosbarth clir a chosbau cyson yn hyrwyddo amgylchedd diogel."
- **Dulliau Adferol:** "Mae arfer adferol wedi helpu ailfeithrin perthnasoedd ar ôl digwyddiadau."
- **Cymorth Rhagweithiol:** "Mae ymyrraeth gynnar a chynlluniau cymorth teilwredig yn atal problemau rhag dwysáu."


### A oes unrhyw beth y gellid ei wneud ar lefel genedlaethol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwael disgyblion?

Roedd llawer o ymatebwyr yn galw am strategaeth genedlaethol sy'n cynnwys gwahardd ffonau symudol, cyllid cynyddol am ddarpariaethau arbenigol, ac atebolrwydd cliriach i rieni. Roeddent yn eirioli am gydweithio gwell ar draws gwasanaethau addysg, iechyd a chymdeithasol.

**Themâu Allweddol:**


- **Cyllid ac Adnoddau:** "Roedd angen cymorth allanol wedi'i ariannu ar ysgolion, a mwy o leoedd mewn UCDau."
- **Atebolrwydd Rhieni:** "Cosbi rhieni am beidio â chefnogi polisïau ymddygiad ysgolion."
- **Polisi Cenedlaethol:** "Mae angen ymgyrch genedlaethol ar effaith y cyfryngau cymdeithasol ac iechyd meddwl."

**Siart 5: Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, a fyddech chi'n dweud bod ymddygiad disgyblion, yn gyffredinol, wedi:**





**Canran yn seiliedig ar ymatebion gan 37 o benaethiaid.**

**Siart 6: Ar raddfa o 1-5, sut byddech chi’n graddio ymddygiad yn eich ysgol?**





**Canran yn seiliedig ar ymatebion gan 37 o benaethiaid. Mae graddau ar raddfa o 1 i 5, lle mae 1= Anfoddhaol a 5=Rhagorol.**

### Siart 7: Ar sail eich profiad fel pennaeth dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf, allwch chi nodi'r ymddygiadau sydd wedi achosi'r problemau mwyaf mewn gwersi i'ch staff? Dewiswch bob un sy'n berthnasol:





Canran yn seiliedig ar ymatebion gan 36 o benaethiaid.

### Siart 8: Ar raddfa o 1-5, sut byddech chi'n graddio ymddygiad o gwmpas yr ysgol?




Canran yn seiliedig ar ymatebion gan 36 o benaethiaid. Mae graddau ar raddfa o 1 i 5, lle mae 1= Anfoddhaol a 5=Rhagorol.

**Siart 9: Pa rai o'r canlynol yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol o hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, yn eich barn chi? Dewiswch bob un sy'n berthnasol:**




Canran yn seiliedig ar ymatebion gan 36 o benaethiaid.

## Crynodeb o'r prif themâu o ganlyniadau staff

Mae'r ymatebion yn datgelu pryderon sylweddol ynghylch ymddygiad disgyblion mewn ystafelloedd dosbarth ac o gwmpas safleoedd ysgolion. Roedd materion allweddol a godwyd gan staff yn cynnwys tarfu ar lefel isel, herfeiddio, diffyg cefnogaeth gan rieni, a heriau economaidd-gymdeithasol. Mynegodd llawer o aelodau staff rwystredigaeth â threfn anghyson o ran gorfodi polisïau ymddygiad a chymorth allanol cyfyngedig. Dywedodd rhai aelodau staff fod effeithiau cadarnhaol lle mae polisïau newydd wedi cael eu cyflwyno, er bod y gwelliannau hyn yn aml yn cael eu rhwystro gan gyfyngiadau cyllid a meintiau dosbarth mawr.

Roedd tarfu parhaus ar lefel isel, camddefnyddio ffonau symudol, a diffyg parch tuag at staff a chyfoedion ymhlith y pryderon blaenllaw. Pwysleisiodd staff fod ychydig o ddisgyblion yn creu heriau anghymesur sy'n effeithio ar ddysgu ar gyfer y mwyafrif. Dywedwyd bod ymgysylltu â rhieni yn aml yn annigonol, gan adael ysgolion i reoli materion ymddygiadol cymhleth heb gefnogaeth ddigonol gan y cartref.

**Mae dyfyniadau allweddol yn cynnwys:**

"Mae'n ymddangos bod gan fyfyrwyr lai o ymwybyddiaeth o ffiniau ers COVID, maen nhw'n fwy amharod i ymgysylltu â dysgu ac mae dirywiad mewn gwydnwch."

"Triwantiaeth yw ein problem fwyaf arwyddocaol. Mae cam-drin geiriol tuag at staff yn dod yn fwy cyffredin."

“Dwi ddim yn gallu addysgu! Dydy tri deg mlynedd o brofiad ddim wedi fy mharatoi ar gyfer yr her o geisio addysgu fy mhwnc o ddydd i ddydd.”

**Crynodeb Manwl o Ymatebion**

**Ar sail eich profiad yn yr ystafell ddosbarth eleni, allwch chi nodi’r ymddygiadau sydd wedi achosi’r problemau mwyaf yn eich gwersi?**

**Themâu Cyffredin:**

- Tarfu ar Lefel Isel: Mae siarad yn ystod gwersi, crwydro o gwmpas, anwybyddu cyfarwyddiadau, a sgwrsio parhaus yn cael eu crybwyll yn fynych
- Herfeiddio a Diffyg parch: Mae disgyblion yn herio awdurdod, ateb yn ôl, a gwrthod cwblhau tasgau, yn bryderon cyffredin
- Ymosodedd: Ymosodedd geiriol tuag at staff a chyfoedion, gydag adroddiadau achlysurol am gwerylon corfforol
- Triwantiaeth a Hwyrni: Adroddir yn aml am driwantiaeth fewnol, colli gwersi, a chrwydro’r coridorau
- Diffyg Cymhelliant ac Ymdrech: Disgyblion yn dangos yr ymdrech leiaf, yn dibynnu ar staff i gwblhau tasgau, ac nid oes ganddynt yr offer cywir i gwblhau tasgau

Dyfyniadau Perthnasol:

“Mae lleiafrif o ddisgyblion yn rhoi mwy o bwysigrwydd i dorri rheolau ac osgoi cael eu dal am bethau na dysgu.”

“Mae disgyblion yn crwydro yn y coridorau gan effeithio ar wersi sy’n cael eu cynnal.”

“Siarad ar draws yr ystafell ddosbarth a tharfu ar ffrindiau yw’r broblem fwyaf ym mwyafrif y gwersi arferol.”

**Defnyddiwch y gwagle a ddarparwyd os oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach am ymddygiad mewn gwersi.**

**Pryderon Allweddol:**

- Cefnogaeth Rhieni: Dywedodd llawer o ymatebwyr fod rhieni yn anghefnogol, ac weithiau’n tanseilio staff trwy esgusodi ymddygiad gwael.
- Systemau Cymorth Annigonol: Mae diffyg cymorth targedig ar gyfer disgyblion ag ADY, gan gynnwys y rhai ag ADHD ac anawsterau emosiynol, yn cael eu nodi’n aml.
- Effaith ar Addysgu: Mae rheoli ymddygiad yn cymryd cryn dipyn o amser addysgu, gan leihau ansawdd y dysgu ar gyfer disgyblion sy’n ymddwyn yn dda.

Dyfyniadau Nodedig:

“Mae’r systemau sydd ar waith sy’n cynnwys asiantaethau allanol yn rhy araf, ac mae darpariaeth anogaeth yn gyfyngedig.”

“Dydy cefnogaeth rhieni ddim fel yr oedd; dydy rhieni ddim yn mynd i’r afael ag ymddygiad gwael gartref, ac mae’n rhaid i ni wneud hyn yn yr ysgol.”

“Mae ymddygiad wedi cael effaith ddifrifol ar addysgu oherwydd meintiau dosbarthiadau mawr a diffyg cymorth ar gyfer disgyblion bregus.”

**Defnyddiwch y gwagle a ddarparwyd os oes gennych chi unrhyw sylwadau pellach am ymddygiad o gwmpas yr ysgol.**

**Materion Cyffredin:**

- Ymddygiad mewn Coridorau: Mae triwantiaeth, fandaliaeth a cham-drin geiriol mynych yn digwydd yn ystod amseroedd rhydd. Mae disgyblion yn ymgasglu mewn grwpiau aflonyddgar, gan ymddwyn yn fygythiol, sy’n cynnwys dynameg debyg i gangiau.
- Goruchwylio a staffio: Mae prinder staff mewn coridorau ac ardaloedd cyffredin yn cyfrannu at yr anhrefn.

Dyfyniadau Perthnasol:

“Does dim trefn ar y coridorau ac mae’n draed moch ar adegau.”

“Mae llawer o ddisgyblion yn chwarae triwant, yn treulio’r diwrnod yn cuddio o gwmpas yr ysgol, ac yn tarfu ar ddysgu mewn dosbarthiadau eraill.”

“Dydy amser rhydd ddim cystal ag y dylai fod. Anaml y mae staff sydd ar ddyletswydd yn ymyrryd, ac mae myfyrwyr eu hunain yn sôn am yr anghysondeb o ran gorfodaeth.”

**Defnyddiwch y gwagle a ddarparwyd os hoffech chi roi sylwadau pellach am ddisgwyliadau o ran ymddygiad.**

**Prif Themâu:**

- Cysondeb o ran polisïau: Ni chaiff polisïau ymddygiad eu gorfodi’n gyson, sy’n creu dryswch ymhlith disgyblion a rhwystredigaeth ymhlith staff.
- Angen am ganlyniadau clir: Mae llawer o staff yn pwysleisio bod angen canlyniadau diffiniedig a gorfodol am dorri rheolau.
- Atebolrwydd disgyblion: Mae ymatebwyr yn nodi bod rhai disgyblion yn diystyru disgwyliadau yn agored, yn aml oherwydd diffyg disgyblaeth gartref.

Dyfyniadau Cynrychioliadol:

“Mae disgwyliadau’n glir, ond yn cael eu hanwybyddu a does ganddyn nhw ddim ‘pŵer’.”

“Mae disgwyliadau o ran ymddygiad yn glir, ond mae ychydig ohonyn nhw’n credu eu bod nhw’n anghyffyrddadwy.”

“Mae rhai disgyblion yn osgoi cael eu cosbi am ormod o ymddygiad gwael, a disgyblion eraill yn cael eu cosbi am yr un tramgwyddau.”

**Defnyddiwch y gwagle a ddarparwyd os hoffech chi roi sylwadau pellach am unrhyw agwedd ar ymddygiad.**

**Materion a Amlygwyd:**

- Cyllid a chymorth: Mae galwadau am fwy o ddarpariaeth amgen, cymorth iechyd meddwl, a chyllid ar gyfer rheoli ymddygiad yn gyffredin.
- Lles staff: Mae problemau ymddygiad parhaus yn cael effaith negyddol ar forâl a lles staff.
- Hyfforddiant a datblygiad: Mae staff yn gofyn am fwy o hyfforddiant i reoli ymddygiadau heriol a chefnogi disgyblion â phroblemau iechyd meddwl.

Dyfyniadau Allweddol:


“Mae angen gwneud mwy ar lefel Cymru gyfan, yn enwedig ynghylch defnyddio ffonau a chyfryngau cymdeithasol.”

“Mae’n ymddangos bod ysgolion yn cael eu hannog i dderbyn ymddygiad gwael fel nodwedd o fywyd cyfoes.”

“Mae’r diffyg darpariaeth ar gyfer myfyrwyr tariff uchel yn golygu nad yw myfyrwyr eraill yn cael eu cefnogi’n llawn.”


At ei gilydd, y pryderon allweddol ar gyfer ymatebwyr sy’n staff oedd yr angen am orfodi polisïau yn gyson, ymgysylltu’n well â rhieni, ac adnoddau cynyddol i fynd i’r afael â heriau ymddygiadol parhaus mewn ysgolion. Pwysleisiodd ymatebwyr, er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, fod ymddygiad aflonyddgar ychydig ohonynt, yn cael effaith sylweddol ar amgylchedd cyffredinol yr ysgol. Bydd angen camau cydlynus ar draws ysgolion, ymhlith rhieni a llunwyr polisi i fynd i’r afael â’r heriau hyn.

### Siart 10: Yn y ddwy flynedd ddiwethaf, a fyddech chi’n dweud bod ymddygiad disgyblion yn eich ysgol wedi:




Canran yn seiliedig ar ymatebion gan 505 o staff ysgolion.


### Siart 11: Ar raddfa o 1-5, sut byddech chi’n graddio ymddygiad yn eich gwersi




Canran yn seiliedig ar ymatebion gan 503 o staff ysgolion.


Mae graddau ar raddfa o 1 i 5, lle mae 1= Anfoddhaol a 5=Rhagorol.

**Siart 12: Ar sail eich profiad yn yr ystafell ddosbarth eleni, allwch chi nodi'r ymddygiadau sydd wedi achosi'r problemau mwyaf yn eich gwersi? Dewiswch bob un sy'n berthnasol:**





Canran yn seiliedig ar ymatebion gan 504 o staff ysgolion.

**Siart 13: Ar raddfa o 1-5, sut byddech chi’n graddio ymddygiad o gwmpas yr ysgol?**





Canran yn seiliedig ar ymatebion gan 504 o staff ysgolion.
Mae graddau ar raddfa o 1 i 5, lle mae 1= Anfoddhaol a 5=Rhagorol.

## Siart 14: Yn eich barn chi, pa un o'r datganiadau canlynol sy'n berthnasol i'r disgwyliadau / dulliau ymddygiad yn eich ysgol? Dewiswch bob un sy'n berthnasol




Canran yn seiliedig ar ymatebion gan 502 o staff ysgolion.

**Siart 15: Beth, yn eich barn chi, yw’r ffyrdd pwysicaf i hyrwyddo ymddygiad yn eich ysgol? Dewiswch bob un sy’n berthnasol:**




Canran yn seiliedig ar ymatebion gan 503 o staff ysgolion

## Cwestiynau tebyg ar gyfer cymharu ar draws arolygon


Roedd nifer o gwestiynau cyffredin neu debyg ar draws y tri holiadur, er mwyn i ni gymharu ymatebion rhwng disgyblion, aelodau staff ysgolion, a phenaethiaid.

| **Disgybl** | **Staff ysgolion** | **Pennaeth** |
|---|---|---|
| Cwestiwn 2 – Ar raddfa o 1-5, sut byddech chi’n graddio ymddygiad yn eich gwersi? | Cwestiwn 2 – Ar raddfa o 1-5, sut byddech chi’n graddio ymddygiad yn eich gwersi? | Cwestiwn 2 – Ar raddfa o 1-5, sut byddech chi’n graddio ymddygiad yn eich ysgol? |
| Cwestiwn 3 – Ar sail eich profiad yn eich ystafelloedd dosbarth eleni, allwch chi nodi’r ymddygiadau sydd wedi achosi’r problemau mwyaf yn eich gwersi?<br><br>Dewiswch bob un sy’n | Cwestiwn 3 - Ar sail eich profiad yn yr ystafell ddosbarth eleni, allwch chi nodi’r ymddygiadau sydd wedi achosi’r problemau mwyaf yn eich gwersi?<br><br>Dewiswch bob un sy’n | Cwestiwn 3 - Ar sail eich profiad fel pennaeth dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf, allwch chi nodi’r ymddygiadau sydd wedi achosi’r problemau mwyaf mewn gwersi i’ch staff?<br><br>Dewiswch bob un sy’n |

| **Disgybl** | **Staff ysgolion** | **Pennaeth** |
|---|---|---|
| berthnasol | berthnasol | berthnasol |
| Cwestiwn 5 – Ar raddfa o 1-5, sut byddech chi’n graddio ymddygiad o gwmpas yr ysgol yn ystod amser egwyl, amser cinio a rhwng gwersi? | Cwestiwn 5 – Ar raddfa o 1-5, sut byddech chi’n graddio ymddygiad o gwmpas yr ysgol? | Cwestiwn 4 – Ar raddfa o 1-5, sut byddech chi’n graddio ymddygiad o gwmpas yr ysgol? |
| | Cwestiwn 9 - Beth yw’r ffyrdd pwysicaf o hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn eich ysgol, yn eich barn chi?<br><br>Dewiswch bob un sy’n berthnasol | Cwestiwn 6 - Pa rai o’r canlynol yw’r ffyrdd mwyaf effeithiol o hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, yn eich barn chi?<br><br>Dewiswch bob un sy’n berthnasol |
| Cwestiwn 8 - Yn eich barn chi, pa un o’r datganiadau canlynol sy’n wir am y disgwyliadau yn eich ysgol? | Cwestiwn 7 - Yn eich barn chi, pa un o’r datganiadau canlynol sy’n berthnasol i’r disgwyliadau / dulliau ymddygiad yn eich ysgol?<br><br>Dewiswch bob un sy’n berthnasol | |

**I ymateb i gwestiwn 2, ‘Ar raddfa o 1-5, sut byddech chi’n graddio ymddygiad yn eich gwersi / ysgol’ lle mae 1 = Anfoddhaol a 5 = Rhagorol.**

**Siart 16: Cymhariaeth:**




| | 1 neu 2 | 3 | 4 neu 5 |
|---|---|---|---|
| Disgyblion | 13.8% | 32.4% | 53.7% |
| Penaethiaid | 21.6% | 43.2% | 35.1% |
| Staff | 26.0% | 36.0% | 38.0% |

Canran ymateb yn seiliedig ar ymatebion gan 1,684 o ddisgyblion, 37 o benaethiaid a 503 o staff ysgolion. Mae graddau ar raddfa o 1 i 5, lle mae 1= Anfoddhaol a 5=Rhagorol.

Mae dros hanner y disgyblion yn graddio ymddygiad yn gadarnhaol, gyda 53.7% yn ei raddio yn '4' neu '5'. O gymharu, rhoddodd 38.0% o staff a 35.1% o benaethiaid raddau cadarnhaol tebyg.

Roedd cyfanswm o 32.4% o ddisgyblion, 36.0% o staff, a 43.2% o benaethiaid yn graddio ymddygiad mewn gwersi yn ’3’. Rhoddwyd graddau ar ben is y raddfa, '1' neu '2', gan 13.8% o ddisgyblion, 26.0% o staff, a 21.6% o benaethiaid.

Mae’r ymatebion yn dangos gwahaniaethau mewn amgyffrediadau o ymddygiad mewn gwersi, ymhlith disgyblion, staff a phenaethiaid. Roedd disgyblion yn fwy cadarnhaol am ymddygiad mewn gwersi o gymharu â staff a phenaethiaid ysgolion.

I ymateb i gwestiwn 3 ‘Ar sail eich profiad eleni, allwch chi nodi’r ymddygiadau sydd wedi achosi’r problemau mwyaf yn eich gwersi?’

## Cymhariaeth:


| Grŵp | Trais tuag at staff | Ateb yn ôl /amharchu aelod o staff | Tarfu parhaus | Gweiddi allan | Iaith frwnt | Cyrraedd gwersi’ n hwyr | Gwrthod cwblhau gwaith | Defnyddio ffonau symudol | Gadael y dosbarth heb ganiatâd | Dim problemau ymddygiad | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Disgyblion** | | 54.0% | 43.7% | 57.1% | 34.5% | 51.7% | 27.4% | 27.3% | 29.0% | 13.4% | 11.0% |
| **Staff** | 13.7% | 77.6% | 71.8% | 52.2% | 47.8% | 76.0% | 52.6% | 44.6% | 49.2% | 2.2% | 8.5% |
| **Penaethiaid** | 36.1% | 83.3% | 66.7% | 27.8% | 58.3% | 77.8% | 33.3% | 47.2% | 72.2% | 0.0% | 27.8% |

Nododd dros hanner y disgyblion (57.1%) fod ‘gweiddi allan’ yn ymddygiad sydd wedi achosi’r problemau mwyaf mewn gwersi, wedi’i ddilyn yn agos gan ‘Ateb yn ôl / amharchu aelod o staff’ (54.0%) a ‘Cyrraedd gwersi’n hwyr’ (51.7%).

Nododd llawer o staff (77.6%) fod ‘Ateb yn ôl /Amharchu aelod o staff’ yn ymddygiad a oedd yn achosi’r problemau mwyaf mewn gwersi, wedi’i ddilyn yn agos gan ‘Tarfu parhaus’ (71.8%). Nododd dros hanner y staff fod ‘gwrthod cwblhau gwaith’ (52.6%) a ‘gweiddi allan’ (52.2%) yn ymddygiadau sydd wedi achosi’r problemau mwyaf mewn gwersi.

Gofynnwyd i benaethiaid nodi’r ymddygiadau sydd wedi achosi’r problemau mwyaf mewn gwersi i’w staff. Yn yr un modd â staff, nododd llawer o benaethiaid (83.3%) fod ‘Ateb yn ôl / amharchu aelod o staff’ yn ymddygiad sydd wedi achosi’r problemau mwyaf. Nododd llawer (77.8%) o benaethiaid fod ‘cyrraedd gwersi’n hwyr’ a ‘gadael y dosbarth heb ganiatâd (72.2%) yn broblemau.

**Siart 17: I ymateb i Gwestiwn – Ar raddfa o 1-5, sut byddech chi’n graddio ymddygiad o gwmpas yr ysgol? Lle mae 1= anfoddhaol a 5=rhagorol**




| | 1 neu 2 | 3 | 4 neu 5 |
|---|---|---|---|
| Disgyblion | 18.1% | 38.5% | 43.3% |
| Penaethiaid | 13.9% | 58.3% | 30.6% |
| Staff | 46.2% | 36.1% | 17.7% |

Graddfa raddio (1 i 5)

Canran ymateb yn seiliedig ar ymatebion gan 1,692 o ddisgyblion, 36 o benaethiaid a 504 o staff ysgolion. Mae graddau ar raddfa o 1 i 5, lle mae 1= Anfoddhaol a 5=Rhagorol.

Mae’r ymatebion i’r cwestiwn hwn yn dangos gwahaniaeth safbwyntiau ar ymddygiad o gwmpas yr ysgol.

Ymhlith disgyblion, roedd ychydig llai na hanner yr ymatebwyr (43.3%) yn graddio ymddygiad o gwmpas yr ysgol yn uchel, ac yn rhoi ‘4’ neu ‘5’ iddo, tra oedd 38.5% yn ei raddio yn y canol, gan roi sgôr o ‘3’, ac ychydig (18.1%) yn ei raddio yn ‘1’ neu ‘2’.

Mewn cyferbyniad, roedd bron i hanner y staff (46.2%) yn graddio ymddygiad o gwmpas yr ysgol ar ben is y raddfa, sef ‘1’ neu ‘2’. Roedd 36.1% yn ei raddio’n sgôr ganolog, sef ‘3’, ac ychydig yn ei raddio yn uchel, sef ‘4’ neu ‘5’.

Mae ymatebion penaethiaid yn dangos patrwm gwahanol eto, a thros hanner yr ymatebwyr (58.3%) yn graddio ymddygiad yn ‘3’, lleiafrif (13.9%) yn ei raddio yn uchel, sef ‘4’ neu ‘5’, ac ychydig ohonynt yn rhoi gradd isel o ‘1’ neu ‘2’ iddo.

**I ymateb i Staff Ysgolion: Cwestiwn 9 – Beth, yn eich barn chi, yw’r ffyrdd pwysicaf i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn eich ysgol, a’r Pennaeth: Cwestiwn 6 – Pa rai o’r canlynol yw’r ffyrdd mwyaf effeithiol o hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, yn eich barn chi?**

| Grŵp | Disgwyliadau uchel o ymddygiad da sy’n cael eu cyfleu yn rheolaidd i ddisgyblion a rhieni / gofalwyr | Natur weladwy arweinwyr yn ystod gwersi ac o gwmpas yr ysgol | Caiff y disgwyliadau ymddygiad eu cymhwyso’n gyson gan bob un o’r staff | Mae arweinwyr yn sicrhau bod y disgwyliadau o ran ymddygiad yn cael eu cymhwyso’n gyson gan bob un o’r staff | Mae staff yn cael hyfforddiant rheolaidd i’w helpu i ddelio â rheoli ymddygiad yn gadarnhaol | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Staff** | 86.3% | 80.9% | 84.1% | 54.7% | 52.1% | Dd/b |
| **Penaethiaid** | 86.1% | 86.1% | 100.0% | N/A | 63.9% | 30.6 % |

At ei gilydd, dywedodd y rhan fwyaf o’r ymatebion gan staff a phenaethiaid mai disgwyliadau uchel, natur weladwy arweinwyr, a chysondeb mewn disgwyliadau o ran ymddygiad yw’r ffyrdd pwysicaf / mwyaf effeithiol o hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Yn nodedig, amlygodd pob un o’r penaethiaid mai un o’r ffyrdd mwyaf effeithiol o hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yw bod disgwyliadau o ran ymddygiad yn cael eu cymhwyso’n gyson gan bob un o’r staff. Yn ychwanegol, roedd dros hanner yr ymatebwyr yn y ddau grŵp yn credu bod hyfforddiant rheolaidd ar gyfer staff mewn rheoli ymddygiad yn gadarnhaol yn bwysig.

**Yn yr Arolwg Disgyblion: Yn eich barn chi, pa un o’r datganiadau canlynol sy’n wir am y disgwyliadau yn eich ysgol? Staff: Cwestiwn 7 – Yn eich barn chi, pa un o’r datganiadau canlynol sy’n berthnasol i’r disgwyliadau / dulliau ymddygiad yn eich ysgol?**

| Grŵp | Mae disgwyliadau clir ar waith<br><br>Mae disgwyliadau o ran ymddygiad yn glir ac yn hawdd i’w cymhwyso | Nid yw’r disgwyliadau bob amser yn glir / Mae disgwyliadau o ran ymddygiad ar waith. Fodd bynnag, nid ydynt yn glir ac yn hawdd i'w cymhwyso | Nid oes esboniadau clir /<br><br>Dydw i ddim yn ymwybodol o ddisgwyliadau’r ysgol ynghylch ymddygiad | Mae nifer o ddisgyblion yn dewis anwybyddu’r disgwyliadau a osodwyd | Mae gan athrawon wahanol ddisgwyliadau o ddisgyblion |
|---|---|---|---|---|---|
| **Disgyblion** | 40.9% | 23.2% | 7.5% | 52.3% | 34.5% |
| **Staff** | 62.0% | 37.6% | 1.6% | N/A | |

Roedd mwyafrif (62%) o staff a 40.9% o ddisgyblion yn cydnabod presenoldeb disgwyliadau clir o ran ymddygiad.

Nid yw’r disgwyliadau bob amser yn glir ym marn lleiafrif o ddisgyblion (23.2%) a staff (37.6%).

Roedd ychydig iawn o ddisgyblion (7.5%) a staff (1.6%) yn credu nad oes unrhyw ddisgwyliadau clir.

Yn ychwanegol, dywedodd dros hanner y disgyblion fod nifer o ddisgyblion yn dewis anwybyddu’r disgwyliadau a osodwyd, a dywedodd dros draean ohonynt fod gan athrawon wahanol ddisgwyliadau o ddisgyblion.

## Dulliau a sail y dystiolaeth

I lywio’r adroddiad hwn, yn ystod tymor yr hydref 2024, ymwelodd arolygwyr â sampl o 24 o ysgolion uwchradd ac ysgolion pob oed ledled Cymru, a ddewiswyd ar sail maint, lefelau amddifadedd, cyfrwng iaith a lleoliad. Ymwelom â 5 ysgol bob oed (sector uwchradd yn unig) ac 19 ysgol uwchradd. Roedd 16 ysgol yn rhai cyfrwng Saesneg, 5 yn ysgolion cyfrwng Cymraeg a thair ysgol yn ddwyieithog (un math A a 2 math B). Yn ystod yr ymweliadau, cawsom drafodaethau ag arweinwyr sy’n gyfrifol am ymddygiad a lles, grŵp o staff sydd â gwahanol rolau a chyfrifoldebau, staff cymorth a oedd yn cynnwys staff gweinyddol a rheolwyr safleoedd ysgolion a disgyblion, gan gynnwys y rhai a oedd wedi profi ymddygiad heriol. Buom yn ymweld â darpariaethau lles ac ymddygiad ysgolion ar y safle ac yn arsylwi ymddygiad yn ystod amser egwyl, amser cinio ac mewn coridorau rhwng gwersi. Defnyddiom wybodaeth o weithgarwch arolygu yn ystod 2022-2024, hefyd.

Rhoddodd cyfanswm o 10 o’r 22 awdurdod lleol yng Nghymru adborth am eu gwaith i gefnogi ysgolion. Casglwyd barn penaethiaid (43 o ymatebion), staff ysgolion (514 o ymatebion) a disgyblion (1,705 o ymatebion) mewn tri arolwg cenedlaethol ar-lein yn ystod tymor yr hydref 2024. Cyhoeddwyd yr arolygon ar draws sianelau cyfryngau cymdeithasol Estyn. O ystyried natur sensitif y testun, ni ofynnom i ymatebwyr enwi’r colegau y maent yn gweithio ynddynt neu’n eu mynychu. Roedd y sampl yn hunanddewisol, sy’n golygu nad yw’n gynrychioliadol a gallai fod yn destun tuedd hunanddewisol (h.y. yn fwy tebygol o gael eu llenwi gan y rhai sydd â ‘rhywbeth i’w ddweud’ a’r rhai sydd â mynediad at y dechnoleg sydd ei hangen i lenwi’r arolwg, er enghraifft cysylltiad â’r rhyngrwyd). Gellir gweld copïau o’r holiaduron a ddefnyddiom ar gyfer yr adolygiad thematig hwn ar y dudalen gyhoeddiadau.

Hoffai Estyn ddiolch i bawb a gymerodd ran yn yr adolygiad thematig hwn.

## Geirfa

| | |
|---|---|
| **ACEY**<br><br>**Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol** | Mae ACEY yn derm ymbarél sy’n cael ei ddefnyddio i ddisgrifio ystod o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a brofir gan lawer o blant a phobl ifanc mewn cymdeithas heddiw. Mae llawer o ddiffiniadau amrywiol ar gyfer ACEY. Fodd bynnag, nid oes diffiniad diamod (Howarth a Fisher, 2005) |
| **Addysg heblaw yn yr ysgol (AHY)** | Pan fydd angen i awdurdodau lleol drefnu i ddisgyblion gael addysg heblaw yn yr ysgol (AHY), gallai hyn fod oherwydd bod disgybl yn sâl, wedi bod yn sâl neu mewn perygl o gael ei wahardd neu’n cael trafferth cael mynediad i ysgol oherwydd ei anghenion cymdeithasol ac emosiynol neu les. |
| **Arfer adferol** | Ysgol sy’n defnyddio dull adferol i ddatrys gwrthdaro ac atal niwed.<br><br>Mae dulliau adferol yn galluogi’r rhai sydd wedi cael niwed i gyfleu effaith y niwed i’r rhai sy’n gyfrifol, ac i’r rhai sy’n gyfrifol, cydnabod yr effaith hon a chymryd camau i’w chywiro. |
| **CAHMS** | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc |
| **Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA)** | Mae Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol yn Gynorthwywyr Addysgu sydd wedi cael eu hyfforddi i ddarparu cymorth i blant sy’n cael anawsterau deall a rheoli eu hemosiynau a’u hymddygiadau eu hunain. Maent wedi cael eu hyfforddi gan Seicolegwyr Addysg ac yn cael eu goruchwylio ganddynt, ac mae rhwydwaith cenedlaethol sy’n ymestyn dros Gymru a Lloegr.<br><br>Mae mwy o fanylion, adnoddau a dolenni ychwanegol ar gael yn: https://www.elsanetwork.org/ |
| **Grwpiau anogaeth** | Nod yr ymagwedd feithringar yw nodi profiadau meithringar cynnar coll a rhoi i blant a phobl ifanc y medrau cymdeithasol ac emosiynol a all eu helpu i wella perthnasoedd â chyfoedion, datblygu gwydnwch a chynyddu hyder. |

| | |
|---|---|
| **Hierarchaeth anghenion Maslow** | Mae theori Maslow yn awgrymu y gellir trefnu ein hanghenion dynol yn hierarchaeth glir, sy’n aml yn cael ei darlunio fel triongl neu byramid. O’r gwaelod i’r top, y lefelau yw:<br>• Anghenion ffisiolegol (bwyd, dŵr, lloches, gorffwys)<br>• Anghenion diogelwch (diogeledd, sefydlogrwydd, rhyddid rhag ofn)<br>• Anghenion cymdeithasol a pherthyn (cyfeillgarwch, agosrwydd, derbyn) anghenion parch (parch, cydnabyddiaeth, statws)<br>• Anghenion hunanwireddu (cyflawni eich llawn botensial, creadigrwydd) |
| **Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod** | Digwyddiadau ingol neu drawmatig, gan gynnwys cam-drin neu esgeuluso. Gallent hefyd gynnwys trafferthion ar yr aelwyd fel gweld trais domestig neu dyfu i fyny gydag aelodau o’r teulu sydd ag anhwylderau defnyddio sylweddau, salwch meddwl neu yn y carchar. |
| **Rhaglenni ymyrraeth gymdeithasol ac emosiynol** | Rhaglenni ysgol gyfan / dosbarth cyfan neu unigolion a grwpiau sy’n hyrwyddo medrau cymdeithasol ac emosiynol sy’n sail i ddysgu effeithiol, ymddygiad cadarnhaol, presenoldeb rheolaidd ac iechyd emosiynol da |
| **Symudiad rheoledig** | Mae symudiad rheoledig yn symudiad gwirfoddol wedi’i gynllunio’n ofalus o un ysgol i ysgol newydd a gallai fod yn ddewis amgen addas lle mae disgybl mewn perygl o gael ei wahardd yn barhaol, mae’n achosi risg i les disgyblion eraill neu’n gwrthod mynd i’r ysgol. |
| **UCD** | Uned Cyfeirio Disgyblion |
| **Ysgol sy’n ystyriol o drawma** | Ysgolion sy’n cydnabod ac yn ymateb i effaith straen gwenwynig ar blant |

**Niferoedd – symiau a chyfrannau**

| | |
|---|---|
| bron pob un = | Gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |

| | |
|---|---|
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Cyfeiriadau

Bellis, M., Ashton, K., Hughes, K., Ford, K., Bishop, J. a Bishop, S. (2016) *Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a’u Heffaith ar Ymddygiadau sy’n Niweidio Iechyd ym Mhoblogaeth Oedolion Cymru.* PHW. Ar gael ar-lein: Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a’u Heffaith ar Ymddygiadau sy’n Niweidio Iechyd ym Mhoblogaeth Oedolion Cymru – Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant. Darllenwyd 14 Mawrth 2025

*Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru)* (2018) Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ar gael ar-lein: Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018. Darllenwyd 13 Chwefror 2025

Donnelly, B., Hunter, S. C., & McDill, R. (2014) Bullying in Scotland 2014. Respect Me. Ar gael ar-lein: Bullying in Scotland 2014 summary report final pdf by Respect me - Issue. Darllenwyd 14 Mawrth 2025

Dumfries and Galloway Council, Education and Learning Directorate (2021) *Positive Behaviour in School.* Ar gael ar-lein: Positive Behaviour in School (dumgal.gov.uk) . Darllenwyd 14 Mawrth 2025.

Education Scotland (no date) *Promoting Positive Relationships and Behaviour in Educational Settings,* Ar gael ar-lein: Promoting Positive Relationships and Behaviour in Educational Settings. Darllenwyd 14 Mawrth 2025

Estyn (2018) *Symudiadau rheoledig: Defnydd effeithiol o symudiadau rheoledig gan awdurdodau lleol ac ysgolion.* Caerdydd: Estyn. Ar gael ar-lein: https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella/symudiadau-rheoledig-defnydd-effeithiol-o-symudiadau-rheoledig-gan-awdurdodau-lleol-ac-ysgolion/. Darllenwyd 14 Mawrth 2025

Estyn (2020) Adnabod eich plant – cefnogi disgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Caerdydd: Estyn. Ar gael ar-lein: Adnabod eich plant – cefnogi disgyblion sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod - Estyn. Darllenwyd 14 Mawrth 2025

Higgins, J. (2025) *How to Deal with Challenging Behaviour in the Classroom*. CPD Online College. Ar gael ar-lein: How to Deal with Challenging Behaviour in the Classroom | Tips (cpdonline.co.uk) . Darllenwyd 14 Mawrth 2025

Howarth, R. a Fisher, P. (2005) *Emotional and Behavioural Difficulties.* London: Continuum International Publishing Group.

Llywodraeth Cymru (2016) *Cynnwys a chynorthwyo disgyblion.* Ar gael ar-lein: Cynnwys a chynorthwyo disgyblion: canllawiau ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol | LLYW.CYMRU Darllenwyd 14 Mawrth 2025

Llywodraeth y DU, yr Adran Addysg (2023) *Case study: Celebrating positive behaviour in school.* Ar gael ar-lein: https://www.gov.uk/government/case-studies/celebrating-positive-behaviour-in-school. Darllenwyd 14 Mawrth 2025

Llywodraeth y DU, yr Adran Addysg (2023) *National behaviour survey Findings from Academic Year 2021/22.* Ar gael ar-lein: National behaviour survey reports - GOV.UK. Darllenwyd 14 Mawrth 2025

Llywodraeth y DU, yr Adran Addysg (2024) *Behaviour in Schools Advice for headteachers and school staff.* Ar gael ar-lein: Behaviour in Schools - Advice for headteachers and school staff Feb 2024 (publishing.service.gov.uk) Darllenwyd 14 Mawrth 2025.

NASUWT (2023) *Behaviour in Schools.* Ar gael ar-lein: Behaviour in Schools - Full Report (September 2023) (nasuwt.org.uk). Darllenwyd 14 Mawrth 2025

Ofsted (2019) *HMCI commentary: managing behaviour research.* Ar gael ar-lein: https://www.gov.uk/government/speeches/research-commentary-managing-behaviour. Darllenwyd 14 Mawrth 2025

Rhodes, I. a Long, M. (2019) Improving Behaviour in Schools: Make informed decisions about behaviour strategies. Ar gael ar-lein: Improving Behaviour in Schools | EEF (educationendowmentfoundation.org.uk) Darllenwyd 14 Mawrth 2025

Tegwch profiadau’r cwricwlwm ar gyfer disgyblion sy’n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) (Estyn, DYDDIAD)

TES (2023) *The Big Debate: Should a culture of belonging be at the centre of school strategy?* Ar gael ar-lein: How a sense of belonging in school affects behaviour, attainment and attendance | Tes. Darllenwyd 14 Mawrth 2025

Wilson, P; Allan, T; Whistance, B; Beynon, M; Julings, M; Russell, H. (2023). *Adolygiad o arferion a ddefnyddir mewn ysgolion a gynhelir ac unedau cyfeirio disgyblion i rwystro gwaharddiadau.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 13/2024. Ar gael ar-lein: https://www.llyw.cymru/adolygu-arferion-er-mwyn-ceisio-atal-gwahardd-dysgwyr-or-ysgol. Darllenwyd 14 Mawrth 2025.

Williams, J. (2018) *“It Just Grinds You Down”: Persistent disruptive behaviour in schools and what can be done about it.* Policy Exchange. Ar gael ar-lein: It-Just-Grinds-You-Down-Joanna-Williams-Policy-Exchange-December-2018.pdf (policyexchange.org.uk) Darllenwyd 14 Mawrth 2025